

S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

Adroddiad Blynyddol
a Datganiad Ariannol
2012

Annual Report &
Statement of Accounts
2012



**Adroddiad Blynyddol
a Datganiad Ariannol
2012**

Cyflwynir Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C i'r Senedd yn sgil paragraffau 13(1) a 13(2) i atodlen 6 Deddf Darlledu 1990

**Annual Report &
Statement of Accounts
2012**

The Annual Report and Statement of Accounts for S4C are presented to Parliament pursuant to paragraphs 13(1) and 13(2) to schedule 6 of the Broadcasting Act 1990

© Awdurdod S4C, 2013

Caniateir atgynhychu testun y ddogfen hon yn ddi-dal mewn unrhyw fformat neu gyfrwng yn amodol ar gywirdeb yr atgynhychu ac nad yw'n cael ei wneud mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod hawlfraint S4C a nodi teitl y ddogfen.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o www.s4c.co.uk

© S4C Authority, 2013

The text of this document may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is done so accurately and not in a misleading context.

The material must be acknowledged as S4C copyright and the document title specified.

This document is available for download from www.s4c.co.uk

S4C yn 2012



81%

Dyweddodd 81% o arolwg o oedolion sy'n siarad Cymraeg eu bod wedi gwyllo S4C yn y mis cyn yr arolwg



£124.3 miliwn

Effaith economaidd S4C ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru



5.3 miliwn

Nifer o bobl wylodd S4C drwy'r DU yn 2012



2.8 miliwn

Sesiynau gwyllo ar-lein



1.3 miliwn

Nifer o bobl sy'n tiwnio mewn i S4C ar gyfartaledd bob mis



1.2 miliwn

Nifer wylodd raglenni o ddigwyddiadau'r flwyddyn



576,000

Nifer y gwylwyr trwy'r DU yn ystod wythnos gyffredin



201,000

Ymweliadau â gwefan S4C bob mis



185,000

Nifer sy'n gwyllo gwasanaeth Cyw bob mis



130,000

Gwylwyr Pobol y Cwm – nifer y bobl sy'n tiwnio mewn i'r gyfres ar gyfartaledd bob wythnos yng Nghymru



£11,201

Cost yr awr Cynnwys S4C yn 2012 – gostyngiad o 31% ers 2009



2,003

Oriau o raglenni gwreiddiol a gomisiynwyd



£1.95

Mae pob £1 sy'n cael ei fuddsoddi gan S4C yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn creu bron i £2

S4C in 2012

81%

of a survey of Welsh speaking adults said they viewed S4C in the month prior to the survey

£124.3 million

S4C's economic impact on the creative industries in Wales

5.3 million

Number of people who viewed S4C throughout the UK in 2012

2.8 million

Online viewing sessions

1.3 million

Number of people tuning in to S4C on average each month

1.2 million

Number who viewed programmes from the year's events

576,000

Number of viewers throughout the UK in an average week

201,000

Visits to the S4C website each month

185,000

Number who view the Cyw service each month

130,000

Viewers of Pobol y Cwm – average number of people tuning in to the series each week in Wales

£11,201

Cost per hour of S4C Content in 2012 – reduction of 31% since 2009

2,003

Hours of original programmes commissioned

£1.95

Every £1 invested by S4C in the creative industries in Wales produces almost £2

Cynnwys

8	Cyflwyniad y Cadeirydd
10	Cyflwyniad y Prif Weithredwr
14	Blaenoriaethau Strategol
16	Asesu Perfformiad
26	Mesuryddion Perfformiad
70	Gwobrau ac Enwebiadau
72	Awdurdod S4C
76	Tim Rheoli S4C

78 Datganiad Ariannol

82	Adroddiad yr Awdurdod
92	Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Awdurdod S4C
94	Cyfrif Elw a Chollod Cyfun
94	Mantolen Gyfun
96	Mantolen S4C
96	Datganiad Llif Arian Cyfun
96	Datganiad Cyfanswm yr Enillion a Chollodion Cydnabyddedig
98	Nodiadau i'r Cyfrifon

Contents

	Chairman's Introduction
	Chief Executive's Introduction
	Strategic Priorities
	Assessing Performance
	Performance Measures
	Awards and Nominations
	S4C Authority
	S4C's Management Team

Statement of Accounts

	Report of the Authority
	Independent Auditor's report to the Members of the S4C Authority
	Consolidated Profit and Loss Account
	Consolidated Balance Sheet
	S4C Balance Sheet
	Consolidated Cash Flow Statement
	Statement of Total Recognised Gains and Losses
	Notes to the Accounts

Cyflwyniad Huw Jones Cadeirydd Awdurdod S4C



Roedd 2012 yn flwyddyn arall o newid yn hanes S4C ond y tro hwn yn un o sefydlogi'r cwch a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Roedd hefyd yn gyfnod o adfywio, gydag S4C a'r gymuned o gwmnïau a phobl sy'n creu cynnwys ar ei chyfer yn dod at ei gilydd i wynebu'r her greadigol.

Ddiwedd Ionawr, roeddwn yn falch iawn o fedru croesawu Ian Jones i'w swydd fel Prif Weithredwr. Gyda'i brofiad eang o deledu ar draws gwledydd Prydain, ac yn rhyngwladol, mae penodiad Ian wedi rhoi hyder i bobl yn nyfodol S4C ac mae'r camau breision sydd wedi eu cymryd yn gyflym iawn o dan ei arweiniad wedi cadarnhau'r hyder hwn. Mae wedi gweithredu'n fuan i greu strwythur staffio mewnlol newydd ac mae'r penodiadau newydd o ran uwch swyddogion wedi cael croeso cyffredinol.

Cytundeb gydag Ymddiriedolaeth y BBC

Yn dilyn cyhoeddi'r cytundeb rhwng Awdurdod S4C, Ymddiriedolaeth y BBC a'r DCMS ym mis Hydref 2011 cafwyd trafodaethau estynedig gyda'r Ymddiriedolaeth ynglŷn â chynnwys y Cytundeb Gweithredol rhyngom. Mae hwn yn diffinio'n fwy manwl natur y berthynas a beth yw'r pwrpasau y bydd arian y drwydded yn cael ei ddefnyddio ar eu cyfer. Oherwydd bod yna gysondeb agos rhwng pwrpasau cyhoeddus y BBC a swyddogaeth S4C fel mae'n cael ei diffinio mewn cyfraith gwlad, a gyda llawer o ewyllys da ar y naill ochr a'r llall, mae'r Cytundeb wedi medru pontio'r anghenion hyn yn effeithiol. Mae'r Cytundeb hefyd yn ei gwneud yn glir fod annibyniaeth olgyddol a gweithredol S4C yn cael eu gwarchod, tra'n sicrhau atebolrwydd priodol i Ymddiriedolaeth y BBC am wariant arian Ffi'r Drwydded. Yn dilyn cyhoeddi'r Cytundeb Gweithredol drafft ym mis Awst, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'i gynnwys. Roedd hyn yn gyfle gwirioneddol i gymryd sylw o rai materion oedd yn achosi pryder, a chyflwynwyd nifer o newidiadau i'r ddogfen derfynol yn sgil yr ymgynghoriad. Fe arwyddwyd y Cytundeb ym mis Ionawr 2013 mewn pryd ar gyfer y drefn ariannu newydd a ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill 2013.

Un o ddarpariaethau'r cytundeb gwreiddiol oedd y byddai Ymddiriedolaeth y BBC dros Gymru yn ymuno ag Awdurdod S4C. Estynnwyd gwahoddiad i Elan Closs Stephens ymuno ar fyrder, yn hytrach na disgwyl tan Ebrill 2013, ac roedd yn bleser ei chroesawu i'w chyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf. Mae dyfnder profiad Elan o gyrrf goruchwylio'r byd darlledu yng Nghymru yn bur unigryw ac mae ei phresenoldeb yng nghyfarfodydd yr Awdurdod eisoes yn gaffaeliad mawr i'n trafodaethau ac yn help i sicrhau fod ein partneriaeth gyda'r BBC yn un adeiladol a chynhyrchiol. Rwy'n falch iawn hefyd o groesawu tri aelod newydd arall a ymunodd â'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn, sef y Dr. Carol Bell, Aled Eirug a Marian Wyn Jones - ill tri gyda llu o brofiad ac ystod eang o sgiliau rhyngddynt.

Cyllid

Mae'r adroddiad ariannol eleni yn nodi'r gostyngiad sylweddol yn yr incwm a dderbyniwyd oddi wrth y DCMS, sef £83m o'i gymharu â £90m yn 2011. Yn 2010, roedd y swm roeddem yn ei dderbyn o dan ddarpariaeth y Ddeddf Gyfathrebu Flaenorol yn £101m. Yn 2011, llwyddwyd i ddefnyddio arbedion o gyllidebau'r blynyddoedd cynt er mwyn gwarchod y gwasanaeth rhag toriadau mawr sydyn, gan roi cyfle i swyddogion a chynhyrchwyr ad-drefnu, cyn y lleihad anoche i'r gyllideb cynnwys yn 2012. Mae'r Awdurdod wedi mynnu bod toriadau costau mewnlol S4C yr un mor llym â'r rhai sy'n wynebu'r cynhyrchwyr rhaglenni, ac fe fydd y targed yma'n cael ei gyflawni yn 2013, flwyddyn ynghynt na'r hyn a osodwyd. Mae niferoedd staff mewnlol S4C yn awr wedi disgyn i 126 o'i gymharu â 158 yn 2010 er, yn y tymor byr, mae yna gostau ail-strwythuro anoche wrth i staff gael eu digolledu am golli swyddi.

Wrth edrych ar gostau canolog eraill, daethpwyd i'r casgliad nad oedd modd parhau i dalu £1.5m y flwyddyn am sicrhau lle i'r gwasanaeth Clirlun ar Freeview. Rydym yn dal i obeithio y bydd modd cyflwyno gwasanaeth Manylder Uwch (HD) ar lwyfannau eraill maes o law.

Rydym hefyd yn awyddus i weld S4C yn datblygu ei ffynonellau incwm ychwanegol ei hun. Fydd rhain byth yn cymryd lle arian cyhoeddus, ond wrth greu trefniadaeth fasnachol effeithiol, sy'n adnabod cyfleoedd pan maen nhw'n codi – yn enwedig yn y meysydd digidol – gallwn obeitio yn y dyfodol weld cynnydd yn yr incwm a ddaw o'r ffynonellau hyn.

Mae'r cytundeb gydag Ymddiriedolaeth y BBC yn sicrhau y bydd yr arian a ddaw o ffi'r drwydded yn parhau tan o leiaf 2017, (gyda thoriad o 1% yn 2015-16 ac eto yn 2016-17) ac mae hyn yn rhoi elfen bwysig o sefydlogrwydd i ni. Roeddem yn falch dros ben o ddeall na fyddai cwtogi pellach yn 2015-16 ar yr elfen o'n cyllido a ddaw o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr ymrwymiad parhaol i amcanion y gwasanaeth gan Lywodraeth y DU y mae'r penderfyniad hwn yn ei gynrychioli. Rydym yn ddiolchgar hefyd i'r unigolion, y sefydliadau a'r cynrychiolwyr seneddol niferus fu'n tystio i werth diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd S4C.

Perfformiad y Gwasanaeth

Prif fesur gwyllo S4C yw cyrhaeddiad, sef faint o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth mewn cyfnod penodol. Er y bu yna rywfaint o ostyngiad yn 2012 yn y rhan fwyaf o'r mesuriadau cyrhaeddiad, o'u cymharu â 2011, dros gyfnod o bedair blynedd mae'r mesur yma yn eithaf cyson, gan ddangos bod rhywle ar draws 450,000 o bobl yng Nghymru yn troi i mewn at y gwasanaeth, ar gyfartaledd, bob wythnos. O ystyried hefyd fod ffigyrau gwyllo ar draws y Deyrnas Gyfunol wedi cael eu heffeithio mewn gwahanol ffyrdd yn ystod 2012 gan ddigwyddiadau eithriadol y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd a'r Jiwbilli, nid yw'n annisgwyl gweld rhain hefyd yn effeithio ar gyrhaeddiad S4C dros y cyfnod.

Lawn mor arwyddocaol yw'r ymateb calonogol a gafwyd i ystod eang o raglenni yn ystod y flwyddyn - fel sy'n cael ei drafod yn ein hasesiad mwy manwl o'r gwasanaeth yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Roedd hyn er gwaetha'r ffaith i nifer o'r newidiadau a

gyflwynwyd i'r amserlen ym mis Mawrth arwain at ymateb negyddol ymysg y gynulleidfa. Fe wrandawodd yr Awdurdod a'r swyddogion ar yr aorthor a gafwyd a llwyddwyd o fewn ychydig amser i gyflwyno newidiadau pellach i gynnwys rhaglenni ac i'r amserlen, gan ddenu ymateb cadarnhaol.

Gwrando ar y Gynulleidfa

Mae gwrando ar y gynulleidfa yn un o swyddogaethau craidd yr Awdurdod. Rydym yn parhau i gynnal pedwar cyfarfod cyhoeddus bob blwyddyn ac erbyn hyn mae'r fformat a ddefnyddir, sy'n rhoi llawer o bwyslais ar drafod gyda grwpiau bach o gwmpas byrddau, yn profi'n ddull effeithiol iawn o wrando ar farn a rhannu'r drafodaeth am flaenoriaethau. Mae'r Awdurdod hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau cyson gan yr Adran Ymchwil a gan arbenigwyr allanol felly mae ymateb i'r gwasanaeth yn cael ei fesur yn feintiol ac yn ansoddol mewn sawl ffordd wahanol. Mae'n amlwg o'r adborth hwn, ac o'r gwahanol ddulliau o fesur gwerthfawrogiad, bod gwasanaeth unigryw S4C yn dal i gael ei weld yn chwarae rhan bwysig dros ben ym mywyd Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried perfformiad y gwasanaeth o dan nifer o benawdau - defnydd, gwerth am arian, gwerthfawrogiad ac effaith. Rhaid gosod y rhain, wrth gwrs, yng nghydestun sefyllfa gyffredinol yr iaith Gymraeg, a'i siaradwyr. Dangosodd ffigyrau Cyfrifiad 2011 ostyngiad rywfaint yn annisgwyl yn nifer crai y siaradwyr Cymraeg ac fe welwyd gostyngiad pellach yn y nifer o ardaloedd lle siaredir y Gymraeg gan dros 70% o'r boblogaeth. Eto i gyd, mae'r parhad yn nhw'r iaith ymysg pobl ifanc y De-ddwyrain, yn arbennig, yn un o wyrthiau'r oes fodern. Un o dasgau sylfaenol gwasanaeth cyfryngol fel S4C yw parhau i chwarae rhan allweddol ym mywyd y cartrefi a'r unigolion hynny lle mae'r Gymraeg yn iaith a siaredir bob dydd, tra'n gweithredu fel atyniad a chynhaliath i'r rheiny sy'n dod at yr iaith o gefndiroedd gwahanol. Mae'r adroddiad ansawdd yn nodi'r cyfraniad y mae gwahanol raglenni yn ei wneud i'r amcanion hyn.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch i'r aelodau hynny o'r Awdurdod y daeth eu cyfnodau i ben, sef Cenyw Edwards, Bill Davies a Winston Roddick, y tri wedi chwarae rhan bwysig yng ngwaith yr Awdurdod ac hefyd fel cadeiryddion gwahanol bwyllgorau. Diolch hefyd i'r nifer sylweddol o staff S4C rydym wedi ffarwelio â nhw yn ystod y flwyddyn am eu gwaith a'u hymroddiad, rhai ohonynt dros gyfnod hir o flynyddoedd ac, wrth gwrs, i'r Prif Weithredwr a'i staff presennol sy'n ysgwyddo baich sy'n anoche yn drymach nag o'r blaen. Mae'r un peth yn wir am aelodau'r gweithlu o fewn y sector annibynnol a BBC Cymru. Yn y ddau cafwyd unwaith yn rhagor ymroddiad ac egni i'r dasg o ddarparu rhaglenni cofiadwy tra mae'r seiliau cyfansoddiadol newydd yn cael eu hadeiladu.

Chairman's Introduction Huw Jones



2012 was another year of change in the history of S4C, but this time it was about steadying the ship and preparing for the future. It was also a period of renewal, with S4C and the community of companies and people who create content for the Channel coming together to face the creative challenge.

At the end of January, I was delighted to welcome Ian Jones to his post as Chief Executive. With his broad-ranging experience of television across the United Kingdom and internationally, Ian's appointment has given people confidence in the future of S4C and the great strides forward that have been taken under his leadership have reinforced this confidence. He has acted swiftly to create a new internal staffing structure and the new senior officer appointments have been widely welcomed.

Agreement with the BBC Trust

Following the announcement of the agreement between the S4C Authority, the BBC Trust and DCMS in October 2011, extended discussions were held with the Trust on the content of the Operating Agreement between the Trust and ourselves. This defines in greater detail the nature of the relationship and the purposes for which licence fee funding will be used. Since there is close consistency between the BBC's public purposes and S4C's function as described in statute, and with a great deal of goodwill on both sides, the Agreement has been able to bridge these needs effectively. The Agreement also makes it clear that the editorial and operational independence of S4C are being safeguarded, whilst ensuring appropriate accountability to the BBC Trust for licence fee funding expenditure. After the publication of the draft Operating Agreement in August, its content was the subject of a public consultation. This provided a genuine opportunity to take note of some matters which gave cause for concern, and a number of amendments were included in the final document as a result of the consultation. The Agreement was signed in January 2013 in time for the new funding regime which came into effect on April 1st 2013.

One of the provisions of the original agreement was that the BBC Trustee for Wales would join the S4C Authority. Elan Closs Stephens was invited to join forthwith, rather than wait until April 2013, and it was a pleasure to welcome her to her first meeting in July. Elan's depth of experience of supervisory bodies within the broadcasting industry in Wales is quite unique and her attendance at Authority meetings is already a huge asset to our discussions and in ensuring that our partnership with the BBC is constructive and productive. I am also very pleased to welcome three other new members who joined the Authority during the year, namely Dr. Carol Bell, Aled Eirug and Marian Wyn Jones – bringing us, between them, a wealth of experience and a broad range of skills.

Funding

This year's financial report notes the significant reduction in the income received from DCMS, which is £83m compared to £90m in 2011. In 2010, the sum that we received under the provisions of the previous Communications Act was £101m. In 2011, we succeeded in using savings from previous year budgets to protect the service from sudden significant cutbacks, giving officers and producers the opportunity to reorganise, before an unavoidable reduction in the content budget in 2012. The Authority has insisted that the reductions in S4C's internal costs must be on the same scale as those facing programme producers, and this target will be met in 2013, a year earlier than prescribed. S4C's internal staff numbers have now fallen to 126 compared with 158 in 2010 although, in the short term, there are inevitable restructuring costs as staff are compensated for redundancies.

Looking at other central costs, it was concluded that we could not continue to pay £1.5m a year for providing the Clirlun HD service on Freeview. We still hope to be able to introduce a High Definition service on other platforms in due course.

We are also eager to see S4C develop its own additional sources of income. These will never replace public funding but, by putting in place an effective commercial arrangement, which identifies opportunities as they arise – particularly those in the digital arena – we can hope in future to see an increase in the income generated from these sources.

The agreement with the BBC Trust ensures that the money that comes from the licence fee will continue until at least 2017 (with a 1% cut in 2015-16 and again in 2016-17) and this gives us an important element of stability. We were extremely pleased to understand that there will be no further reduction in 2015-16 to the element of funding that comes from the Department for Culture, Media and Sport. We greatly appreciate the continuing commitment of the UK Government to the aims of S4C's service that is evidenced by this decision. We are also grateful to the numerous individuals, institutions and parliamentary representatives who bore witness to S4C's cultural, social and economic value.

Service Performance

S4C's main viewing measure is reach, defined as the number of people who use the service in a specific period. Although there was some reduction in 2012 in most of the measures of reach, compared with 2011, over a period of four years this measure is fairly constant, showing that somewhere in the region of 450,000 people in Wales turn in to the service, on average, every week. Given too that viewing figures across the United Kingdom were affected in different ways during 2012 by extraordinary events in the form of the Olympics, Paralympics and the Jubilee, it is not unexpected for these also to have impacted on S4C's reach over the period.

Of equal significance is the encouraging response received to a wide range of programmes during the year – as discussed in our more detailed assessment of the service later in this report. This was despite the fact that many of the changes introduced to the schedule in March gave rise to a negative response from viewers. The Authority and officers listened to the feedback received and further changes to programme content and to

the schedule were swiftly introduced, drawing a positive response.

Listening to the Audience

Listening to the audience is one of the Authority's core functions. We continue to hold four public meetings each year and the format that is now used, which places far more emphasis on round-table discussions with small groups, is proving to be a very effective method of listening to views and sharing the discussion about priorities. The Authority also receives and considers regular reports by the Research Department and by external experts; the response to the service is therefore measured quantitatively and qualitatively in many different ways. It is clear from this feedback, and from the different methods of measuring appreciation, that S4C's unique service is still seen as playing a very important part in Welsh life.

This report considers the performance of the service under many headings – usage, value for money, appreciation and impact. These should be viewed, of course, within the context of the general situation regarding the Welsh language, and its speakers. The 2011 Census figures showed a rather unexpected reduction in the raw numbers of Welsh speakers and a further reduction was seen in the number of geographical areas where Welsh is spoken by over 70% of the population. Yet, the continued growth of the language among young people in South East Wales, in particular, is one of the miracles of the modern age.

One of the fundamental tasks for a media service such as S4C is to continue to play a key role in the lives of those households and individuals where Welsh is an everyday spoken language, while serving as an attraction and support for those who are coming to the language from other backgrounds. The qualitative assessment notes the contribution of different programmes to these objectives.

In conclusion, I would like to thank those members of the Authority who reached the end of their terms, namely Cenyw Edwards, Bill Davies and Winston Roddick, all three of whom played an important part in the Authority's work and also as chairs of various committees. Thanks are due as well to the significant number of S4C staff with whom we parted company during the year for their work and dedication, some over a period of many years, and, of course to the Chief Executive and his current staff whose workload is undoubtedly heavier than in previous years. The same applies to the members of the workforce within the independent sector and BBC Cymru. In both we saw, once more, dedication and energy directed towards the task of providing memorable programmes while the new constitutional foundations are being laid.

Cyflwyniad Ian Jones Prif Weithredwr S4C



Feddylais i erioed yn 1982, pan oeddwn i'n gwyllo lansiad S4C y byddwn i 'nôl yma ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach fel Prif Weithredwr y sianel. Mae llawer wedi newid ers hynny, ond mae pwrpas S4C yr un fath. Roedd 2012 yn flwyddyn bwysig i S4C. Roedd yn flwyddyn o newid, o ailstrwythuro a chydweithio. Roedd hefyd yn garreg filltir bwysig yn hanes y sianel gan ddathlu deng mlynedd ar hugain o ddarlledu ar S4C ym mis Tachwedd.

Pan lansiwyd y sianel ar y 1af o Dachwedd 1982, daeth criw ohonom at ein gilydd o amgylch set deledu i wyllo Owen Edwards, cyfarwyddwr S4C yn croesawu pawb am y tro cyntaf “i Aelwyd S4C”. 30 mlynedd yn ddiweddarach, er bod y nod o “ddarparu gwasanaeth teledu o ansawdd uchel trwy gyfrwng y Gymraeg” yr un fath, mae'r cynnydd mewn sianelau a llwyfannau yn rhoi dewis a chystadleuaeth llawer ehangach. Bydd darparu cynnwys ar draws cynifer o blatfformau â phosibl yn yr amgylchfyd digidol, i'r gynulleidfa ehangaf posibl i'w gwyllo pryd bynnag a lle bynnag, yn hanfodol i lwyddiant S4C.

Ymunais ag S4C fel Prif Weithredwr ar ôl cyfnod heriol yn hanes y sianel. Roedd trafodaethau cyhoeddus pwysig am ddyfodol y sianel wedi bod yn anodd, ond roedd cefnogaeth a dycnwch nifer sylweddol o unigolion a sefydliadau wedi profi'n glir bod gwerthfawrogiad i S4C fel sefydliad cenedlaethol pwysig yn parhau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n gobeithio bod y pwyslais newydd ar weithio mewn partneriaeth gyda'r sector gynhyrchu annibynnol wedi atgyferthu'r gefnogaeth i'r sianel ac y bydd hyn yn ein galluogi ni i ddarparu gwasanaeth sy'n berthnasol i'n cynulleidfa yn y byd digidol y mae S4C yn rhan ohoni.

Mae gan S4C, fel yr unig sianel deledu Gymraeg yn y byd, ddyletsydd i ddarparu “rhywbeth i bawb”. Mae angen i ni gynnig darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl a llai rhugl, dysgwyr a rheini sy'n dymuno dysgu ac estyn croeso iddynt gyda gwasanaethau megis isdeitlau a thrac sain Saesneg trwy gyfrwng y botwm coch. Mae S4C yn sianel gynhwysol. Yn ogystal ag estyn croeso, mae'n rhaid i ni sicrhau fod S4C yn darparu cynnwys gwreiddiol o safon uchel.

Swyddogaeth S4C

Yn ystod y flwyddyn adolygwyd gweledigaeth, swyddogaeth a gwerthoedd craidd S4C. Roedd staff S4C yn rhan o'r broses o ail-ddiffinio'r rhain er mwyn cynnig eglurder ac ysbrydoliaeth ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r Datganiad o Fwriad a'r gwerthoedd sydd yng ngefn yr Adroddiad Blynyddol yn sail ar gyfer adeiladu nod ac amcanion y dyfodol.

Mae'n fraint i gael arwain tîm creadigol S4C er mwyn datblygu cynnwys newydd a chyffrous ar gyfer ein cynulleidfa. Yn y sector gynhyrchu

annibynnol mae gennym gyfoeth o brofiad a thalent sydd eisiau creu cynnwys safon uchel yn yr iaith Gymraeg ar gyfer ein cynulleidfa. Wrth weithio gyda staff yma yn S4C ac yn y sector gynhyrchu annibynnol rwy'n teimlo'r un angerdd ac uchelgais ag oedd mor amlwg 'nôl yn 1982. Rwy'n gobeithio y gallwn fanteisio ar yr angerdd a'r creadigrwydd hyn, a deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach bod adfywiad creadigol ar y gweill yn S4C.

Er mai prif ddyletsydd S4C yw darparu gwasanaeth teledu, mae'n rhaid i hyn bellach, o fewn cyfryngau a thechnoleg digidol olygu creu cynnwys yn benodol ar gyfer platfformau amgenach na'r teledu ac yn ogystal ymwneud â chymunedau digidol sydd eisiau trafod a rhyngweithio gyda chynnwys S4C. Mae cylch gwaith S4C wedi ei nodi mewn deddf gwlad, ac er mwyn galluogi S4C i ddarparu rhagor o gynnwys digidol mae'n bosibl y bydd angen newid y darpariaethau hyn. Yn ystod y flwyddyn cafwyd trafodaethau gyda Llywodraeth y DU er mwyn diweddarau cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a masnachol S4C i'n galluogi ni i wireddu'r uchelgais aml-platfform. Rwy'n falch o ddweud fod y trafodaethau positif hyn yn parhau.

Newidiadau i'r Amserlen

Yn gynnar yn 2012, lansiwyd amserlen newydd mewn ymateb i ostyngiad ariannu S4C. Bwriad yr amserlen oedd adlewyrchu amrywiaeth bywyd a chymunedau Cymru a thu hwnt a chreu rhaglenni oedd yn rhaid eu gosyllo ac oedd yn destun trafod. Daeth yn amlwg yn fuan nad oedd holl agweddau'r amserlen newydd at ddant y gynulleidfa. Fe wnaethom ymateb yn gyflym i adborth adeiladol gan addasu'r amserlen. Rwy'n falch i ddweud fod y newidiadau a wnaed wedi eu gwerthfawrogi gan y gynulleidfa a'r Awdurdod, oedd hefyd wedi mynegi pryderon am berfformiad yr amserlen newydd. Cynhaliwyd gwaith ymchwil yn ystod y flwyddyn a oedd yn dangos fod y gynulleidfa yn credu, er bod yna le i wella o hyd, bod yr amserlen ddiwygiedig yn ffres a newydd.

Gwrando ar y gynulleidfa

Mae gwrando ar ein cynulleidfa a'u rhoi yng nghanol popeth rydym ni'n ei wneud yn holl bwysig i lwyddiant y gwasanaeth. Cynhaliwyd nifer o nosweithiau gwylwyr yn ystod y flwyddyn. Eu pwrpas yw rhoi cyfle i'r gynulleidfa nid yn unig i dderbyn cyflwyniad am S4C ond hefyd i'r gynulleidfa gyfranogi yn y drafodaeth gyda thîm comisiynu S4C am yr hyn sy'n plesio ai peidio a beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio. Mae adborth o'r cyfarfodydd hyn wedi arwain at newidiadau. Roedd comisiynu prosiectau megis y cynllun ail-sgrîn i blant @TiFiaCyw yn ffrwyth uniongyrchol adborth a dderbyniwyd yn ystod cyfarfod gwylwyr.

Mesur perfformiad

Yn y byd teledu aml-lwyfan, dyw defnyddio un mesur perfformiad syml er mwyn asesu lwyddiant ddim yn ddigonol bellach. Mae lwyddiant heddiw yn cael ei ddehongli trwy gyfuniad o ffactorau gan gynnwys cyrhaeddiad y gwasanaeth, effaith economaidd, gwerthfawrogiad y gynulleidfa, ymddiriedaeth, darpariaeth lwyddiannus i ddysgwyr, rhaglenni plant, a chyfrannu at effaith positif ar ddiwylliant a'r iaith Gymraeg.

Dros y 30 mlynedd diwethaf mae effaith S4C ar yr iaith Gymraeg ac economi Cymru wedi bod yn enfawr. Mae ymchwil gan gwmni Arad Research Cyf yn dangos fod bob £1 sy'n

cael ei fuddsoddi gan S4C yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn creu effaith economaidd cyfansawdd o £1.95 - bron i ddwbl y buddsoddiad gwreiddiol.

Mae'r naw mesur perfformiad a gyflwynir eto yn yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi asesiad cynhwysfawr o berfformiad gwasanaeth S4C yn ystod 2012. Rwy'n gobeithio bod yr asesiad a'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad yn profi fod gwasanaethau S4C, er gwaetha'r heriau a wynebwyd yn ystod 2012, yn parhau i gael eu gwerthfawrogi gan y gynulleidfa a'n bod ni wedi parhau i gynyddu effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian

Mae'r rhaid i effeithlonrwydd a gwerth am arian fod yn flaenoriaeth allweddol i S4C, yn enwedig, ond ddim yn unig mewn cyfnod o gynni ariannol. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos fod cost yr awr cynnwys a gomisiynir gan S4C wedi disgyn o ychydig dros £52,000 yn 2009 i £37,000 yr awr yn 2012 a bod cost yr awr holl ddarllediadau S4C wedi gostwng o ychydig dros £16,000 i ychydig dros £11,000 yn 2012. Mae'r rhain yn ostyngiadau sylweddol, a gostyngiadau y mae'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol wedi gallu ei gwreiddu ar gyfer S4C. Bydd effeithlonrwydd a gwerth am arian yn parhau i gael ei sgrwintneiddio er mwyn ein galluogi ni i flaenoriaethu buddsoddi yn y sector gynhyrchu. Wedi dweud hynny, mae'r gwelliannau sylweddol bellach wedi eu canfod ac mae'n debygol y bydd unrhyw welliannau pellach ar raddfa wahanol.

Partneriaeth gyda'r BBC

Arweiniodd y cyhoeddiad yn Hydref 2010 am y bartneriaeth arfaethedig gyda'r BBC at drafodaethau am gydweithio, am gydweithio ar draws gwasanaethau, cynnwys a materion technegol. Mae'n bwysig hefyd i bwysleisio fod y berthynas newydd yn fwy na pherthynas ar gyfer ariannu, arbedion a thoriadau - mae datblygu syniadau creadigol cyffrous ar gyfer ein cynulleidfa oedd yn greiddiol iddo; mae cydweithio ar draws platfformau ar deledu, radio ac ar-lein yn bwysig hefyd er mwyn sicrhau ein bod ni, gyda'n gilydd, yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau. Mae arwyddo'r Cytundeb Gweithredu rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC sy'n cynnwys trefniadau ariannu ac atebolrwydd o Ebrill 2013 wedi creu seiliau cadarn ar gyfer cydweithio. Mae hefyd yn diogelu'r rhan fwyaf o ariannu S4C o Ymddiriedolaeth y BBC hyd Ebrill 2017. Mae'r tîm yma yn S4C yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda gweithrediaeth y BBC dros y blynyddoedd nesaf ac i greu nifer o brosiectau cyffrous gyda'n gilydd.

Rwy'n falch i ddweud fod y bartneriaeth rhwng S4C a gweithrediaeth y BBC yng Nghymru yn berthynas greadigol, ac rwy'n ffyddiog y byddwn yn gweld prosiectau newydd a chreadigol yn datblygu er budd cynulleidfa oedd y ddau ddarlledwr. Yn ogystal a'r prosiectau creadigol, rydym hefyd yn ystyried ffyrdd o gydweithio gyda'n gilydd er mwyn darganfod arbedion ariannol. Gallai cydweithio o'r fath yn y dyfodol gynnwys rhannu rhai swyddogaethau technegol, swyddogaethau gweinyddol ac o bosibl, fel rwyf wedi nodi o'r blaen, gyd-leoli rhan o weithgareddau S4C a'r BBC mewn canolfan greadigol newydd. Mae'r rhain oll yn ddyheadau ar gyfer y tymor hir.

Chief Executive's introduction Ian Jones



I never imagined in 1982, when I was watching the launch of S4C that I'd be back here thirty years later as the channel's Chief Executive. A lot has changed over thirty years, although S4C's raison d'être remains the same. 2012 was a notable year for S4C. It was a year of change, of restructuring and collaboration. It was also an important milestone in the channel's history as November heralded the 30th anniversary of broadcasting on S4C.

When the channel launched on the 1st November 1982, we congregated around a TV set to watch S4C's director, Owen Edwards welcome everyone for the first time to the home of S4C - “i Aelwyd S4C”. 30 years on, although the goal of “providing a high quality TV service through the medium of Welsh” is the same, the increase in channels and platforms means far more consumer choice and greater competition. In this evolving media landscape, the provision of content across as many platforms as possible, to the widest possible audience, to view whenever and wherever the audience might be is fundamental to S4C's future success.

I joined S4C as Chief Executive following a challenging time in the channel's history. Important public discussions about the future of S4C had been difficult at times, but the support and passion shown by a significant number of individuals and organisations demonstrated clearly that S4C is still an important and valued national institution. I hope that over the past year, an increased emphasis on working in partnership with the independent production sector has reinforced the support shown to the channel to enable us to deliver a service that is relevant to our audience and the new media landscape in which we operate.

As the only Welsh language channel in the world and a public service broadcaster, S4C has a duty to provide “something for everyone”. We need to engage with fluent and less fluent Welsh speakers, learners, those that aspire to learn and reach out via subtitles and an English language track on the red button to non-Welsh speakers. S4C is an inclusive channel. As well as reaching out to our audience, we need to ensure that S4C continues to provide high quality and original content.

S4C's mission

During the year we revisited S4C's Vision, Mission and Core values. S4C's staff took part in re-defining these to provide greater focus and clarity of vision and inspiration for the years ahead. The Mission Statement and values set out at the back of the Annual Report provide the foundations upon which future aims and objectives can be built.

It is a privilege to lead S4C's creative team in developing new and exciting content for our audience. In the independent production sector we have a wealth of experience and talent that wants to create high quality Welsh language

content for our audience. From working with staff here at S4C and in the independent production sector, I sense a similar passion and ambition to the pioneering spirit that was so evident back in 1982. I hope we can harness this passion and creativity and that thirty years on, we have embarked on a creative renewal for S4C.

Although our primary responsibility is to provide a television service, in today's media and technology environment, this must include providing content on relevant digital platforms, creating content specifically for platforms other than television and also engaging with digital communities that want to discuss and interact with S4C's content. S4C's current television remit is set out in legislation, and to enable S4C to provide further digital content may well require a change to these provisions. We commenced discussions with the UK Government during the year to update S4C's public service and commercial remit to enable us to achieve these multi platform aims. I'm pleased to say that these positive discussions are on going.

Changes to the Schedule

In early 2012, a new schedule was launched as a response to the reduction in funding. The schedule also sought to reflect the diversity of lives and communities in Wales and beyond and create “must see” and “talked about” programming. It soon became clear that not all aspects of the new schedule were well received. We reacted positively to constructive feedback and took steps to adapt the schedule. I'm pleased to say that the swift changes we made were appreciated by the audience and the S4C Authority, who had also raised concerns about the performance of the new schedule. We conducted research during the year that showed that the audience believes that although there was still some room for improvement, they felt that the revised schedule was fresh and new.

Listening to our audience

Listening to our audience and placing the audience at the centre of everything we do is integral to the success of the service. We organised numerous viewers' evenings during the year. These were designed to give our audience the opportunity not just to have a presentation about S4C but for the audience to engage and debate with S4C's commissioning team what they liked and disliked and what works and what doesn't. Feedback received during these meetings has led to changes. The commissioning of projects such as the children's second screen project @TiFiaCyw was the direct result of receiving feedback during a public meeting.

Performance measurement

It's no longer appropriate in today's multi-platform television environment, to use one simple performance measure to assess success. Success today is a combination of factors including audience reach, economic impact, audience appreciation, trust, a successful provision of content for learners, for children's programmes, and contributing to a positive impact on the Welsh language and culture.

Over the past 30 years S4C has had an enormous impact on the Welsh language and the economy in Wales. Research by Arad Consulting Cyf shows that every £1 invested by S4C in the creative industries in Wales generates a total economic impact of £1.95 – nearly double the original investment.

The nine performance measures set out in this Annual Report give a comprehensive assessment of the performance of S4C's service during 2012. I hope that the assessment and information set out in this report will demonstrate that despite the numerous challenges we faced in 2012, S4C's service continued to be appreciated by the audience and that we continued to improve efficiency and value for money.

Efficiency and Value For Money

Ensuring that S4C is run efficiently and provides value for money for the audience has to be a key priority for S4C, particularly, but not exclusively at a time of financial pressure. The Annual Report shows that the cost of S4C's commissioned content has reduced from over £52,000 in 2009 to £37,000 per hour in 2012 and the cost per hour of S4C's broadcasts has reduced from over £16,000 in 2009 to just over £11,000 in 2012. These are significant reductions, and reductions that the independent production companies have been able to deliver for S4C. Efficiency and value for money will continue to be scrutinised so that we can prioritise investment in the production sector. That said, the significant improvements have already taken place and it's likely that any further improvements will be of a different scale.

Partnership with the BBC

The announcement of the proposed new partnership with the BBC in October 2010, led to discussions of collaboration, co-operating across services, content and technical areas. It's important to emphasise that this new relationship is about more than funding, cost saving and cuts- it's about developing creative and exciting projects together for both our audiences; it's also about co-operating across platforms on TV, on Radio and on-line, to make sure that collectively, we make the best use of the resources we have at our mutual disposal. The signing of the Operating Agreement between the S4C Authority and BBC Trust for S4C's funding and accountability arrangements from April 2013 provides a solid basis for collaboration. It also secures the majority of S4C's funding from the BBC Trust until April 2017. The team at S4C look forward to working closely with the BBC executive over the next years and to creating many exciting projects together.

Cooperation and working in partnership was also a key element of our relationship with the BBC during the year. I'm pleased to say that the partnership between S4C and the BBC Executive in Wales is a creative relationship, and I'm confident that we'll see new and creative projects emerging that will benefit both our audiences. Together with the creative projects, we're also looking at ways of collaborating with each other to find financial efficiencies. Such cooperation could in future include sharing certain technical functions, other back office functions and possibly as I have mentioned before co-locating part of S4C and BBC's operations in a new creative centre. These are all long term aspirations.

Finance

Against the challenging financial backdrop, we have succeeded to date in protecting the hours broadcast and programme output on screen. This was done through significant changes to S4C's cost base and also the cost per hour of S4C's programming.

We were not however able to retain S4C's High Definition service Clirlun, which we had

Ariannu

Er gwaetha'r sefyllfa ariannol heriol, hyd yma rydym wedi llwyddo i warchod yr oriau darlledu a'r allbwn ar-sgrîn. Gwnaed hyn o ganlyniad i newidiadau sylweddol i gostau S4C ac yn ogystal cost yr awr rhaglenni S4C.

Doedd dim modd i ni barhau gyda Ciirlun, gwasanaeth manylder uchel S4C, a daeth y gwasanaeth i ben ym mis Rhagfyr. Daeth yr Awdurdod a Thîm Rheoli S4C i'r casgliad nad oedd Ciirlun yn gallu darparu gwerth am arian yn y cyd-destun ariannol presennol. Wedi dweud hyn, nid yw hyn yn golygu bod S4C yn rhoi'r gorau i fanylder uchel. Rwy'n gobeithio yn y dyfodol y byddwn yn canfod ffyrdd mwy cost effeithiol o ddarparu cynnwys mewn manylder uchel.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Canghellor doriadau ariannol pellach ar gyfer 2013-14 a 2014-15 ac yna yn yr Adolygiad Gwariant ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd y Canghellor y byddai ariannu S4C o'r Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn cael ei warchod ar gyfer 2015-16. Croesawyd y newyddion hyn gan S4C a'i rhanddeiliaid. Mae cael sicrwydd ariannol oddi wrth y Llywodraeth hyd fis Mawrth 2016 yn amlwg yn ddatblygiad pwysig i S4C ac i'r sector gynhyrchu annibynnol.

Canolfan Gyfryngau S4C

O ganlyniad i newidiadau sylweddol i faint gweithlu S4C, daeth bron i hanner gofod swyddfa S4C yn wag. Felly fe benderfynwyd rhentu'r gofod hyn er mwyn cynhyrchu incwm ychwanegol ond hefyd er mwyn creu clwstwr o gwmnïau creadigol o amgylch S4C. Ym mis Rhagfyr croesawyd nifer o gwmnïau i S4C am y tro cyntaf ac ail-enwyd ein hadeilad yn Ganolfan Cyfryngau S4C er mwyn cydnabod hyn. Mae'r fenter hon wedi creu awyrgylch newydd bositif o fewn yr adeilad ynghyd â gweithgarwch ag egni newydd. Mae'r fenter hefyd yn creu gwerth ychwanegol i S4C. Rwy'n gobeithio pan fydd pobl yn ymweld ag S4C eu bod bellach yn gweld cymuned greadigol.

Yn ogystal â chreu newyllyn creadigol yn Llanisien, cyhoeddais awydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst i ystyried y posibilrwydd o adleoli rhai o weithgareddau S4C i rannau eraill o Gymru. Afraid yw dweud yn yr hinsawdd ariannol bresennol y bydd yn rhaid i unrhyw gynllun adleoli wneud synnwyr ariannol. Yn yr Hydref cyhoeddwyd astudiaeth dichonolrwydd er mwyn ystyried hyn mewn rhagor o fanylder.

Yn ystod 2012 gwnaed rhagor o ail-strwythuro o fewn S4C, gyda nifer pellach o ddiswyddiadau gwirfoddol a gorfodol yn ganlyniad anochel. Dyw cymryd penderfyniadau ail-strwythuro byth yn hawdd, ac yn ystod y flwyddyn ffarweliwyd gyda nifer fawr o staff proffesiynol oedd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth ac ymroddiad i S4C. Arweiniodd y gwymp yn ariannu S4C at ail-strwythuro a cholli swyddi o fewn y cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn ogystal. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r rheini adawodd S4C a'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol am eu cyfraniadau pwysig i S4C a darlledu yn yr iaith Gymraeg.

Dros gyfnod o 30 mlynedd, mae S4C wedi derbyn enwebiadau gwobrau Oscar, Bafta RTS, Emmys rhyngwladol a primetime. Mae S4C wedi gweld dyfodiad teledu aml-sianel, y newid o wasanaeth analog i wasanaeth digidol gynhwysfawr a datblygiad cyfryngau a phlatfformau digidol a ffyrdd newydd dyfeisgar o greu a rhannu cynnwys. Cynnal safon y gwasanaeth a'i gynnwys yw sylfaen unrhyw wasanaeth teledu llwyddiannus mewn unrhyw iaith, a bydd hyn yn gynyddol bwysig i S4C wrth i'r byd aml-lwyfan ddatblygu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Byddai llwyddiant S4C dros y 30 mlynedd ddiwethaf ddim wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth nifer o sefydliadau, y sector gynhyrchu annibynnol, talent o flaen a thu ôl i'r camera a gwaith amhrisiadwy'r staff. Hoffwn fynegi fy niolch didwyll i bawb sy'n rhan o S4C am eu hymroddiad a'u cefnogaeth unwaith eto yn 2012.

Gyda'r tîm fan hyn yn S4C ac yn y sector gynhyrchu annibynnol, fy mlaenoriaeth i ar gyfer y flwyddyn nesaf yw adfywiad creadigol S4C a darparu gwasanaeth o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n rhoi'r gynulleidfa yng nghanol popeth rydan ni'n ei wneud. Deng mlynedd ar hugain ers croeso Owen Edwards mae Aelwyd S4C yma o hyd ac yn dal i ddarparu croeso i'n cynulleidfa, a hir y parhaed hynny.

S4C yn ystod ymgyddiad i'w gwasanaeth digidol

S4C yn ystod ymgyddiad i'w gwasanaeth digidol

to close in December. The Authority and S4C’s Management Team came to the conclusion that given S4C’s current financial position, Ciirlun could not provide value for money. That said, this does not mean that S4C is turning its back on high definition. I’m hopeful that in future, we’ll find more cost effective ways of delivering high definition content.

In December, the Chancellor set out further funding reductions for 2013-14 and 2014-15 and in the Spending Review in June 2013, the Chancellor announced that funding for S4C from the Department for Culture, Media and Sport would be protected for 2015-16. This news was welcomed by S4C and numerous stakeholders. Having certainty of funding from Government until March 2016 is clearly an important development for S4C and the independent production sector.

S4C Media Centre

As a result of significant changes to the size of S4C’s workforce, nearly half of S4C’s office accommodation in Llanisien had become vacant during 2012. As a result, we decided to lease this excess capacity to generate additional income, but also to create a new cluster of creative companies around S4C. In December we opened our doors to welcome new companies into S4C for the first time and to reflect this change the building was re-branded as the “S4C Media centre”. This venture has created a new positive feeling in the building, with increased activity and buzz. It also brings added value in the form of a supplementary revenue stream. I hope that when people come to visit S4C they now see a creative community at work.

S4C yn ystod ymgyddiad i'w gwasanaeth digidol

As well as establishing a create hub in Llanisien, at the National Eisteddfod in August I announced an intention to look at the feasibility of relocating some of S4C’s operations to other parts of Wales. Of course in the current economic climate any relocation project will have to make sense financially and operationally. In the autumn we announced a feasibility study to investigate this in more detail.

During 2012 further restructuring took place, and this inevitably led to a further number of voluntary and compulsory redundancies. Having to take difficult restructuring decisions is never easy, and we said farewell during the year to a large number of professionals that had given years of dedicated service. The reduction in S4C’s funding also led to restructuring and job losses within the independent production companies. I’d like to take this opportunity to thank those that left S4C and the independent sector for their important contributions to S4C and Welsh language broadcasting.

Over a 30 year period, S4C has received Oscar nominations, Bafta and RTS awards, international and primetime Emmy’s. S4C has witnessed the launch of multi-channel television, the change from an analogue service to a comprehensive digital service and the development of digital media and platforms and new and ground breaking was of creating and sharing content. Maintaining quality of service and content is the foundation for any successful television service in any language and for S4C this will become increasingly important as the multiplatform environment develops further over the next years.

S4C yn ystod ymgyddiad i'w gwasanaeth digidol

S4C’s success over 30 years would not have been possible without the support of many organisations, the independent production sector, the talent on screen, talent beind the camera and the invaluable hard work of staff too numerous to name, but too valuable to forget. I’d like to express my sincere thanks to all those that are part of S4C for their commitment and support once again in 2012.

S4C yn ystod ymgyddiad i'w gwasanaeth digidol

Together with the team here at S4C and in the independent production sector, my priority for the coming year is the creative renewal of S4C and providing a high quality Welsh language service that puts the audience at the centre of everything we do. Thirty years on from Owen Edwards’ welcome, S4C’s Aelwyd is still here and still providing *croeso* to our audience and long may that continue.

Blaenoriaethau Strategol 2012

Cyhoeddodd Awdurdod S4C Gynllun Gwaith ar gyfer gweithgareddau Awdurdod a Swyddogion S4C yn 2012.

Prif flaenoriaethau strategol y flwyddyn a nodwyd yn y cynllun oedd:




Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol yn adrodd ar berfformiad S4C yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

Strategic Priorities 2012

The S4C Authority published a Work Plan for the activities of the S4C Authority and S4C's Officers in 2012.

The main strategic priorities for the year identified in the plan were:



The Annual Report and Statement of Accounts report on S4C's performance against these priorities.

Asesu Perfformiad 2012

Dyletswydd Awdurdod S4C yw darparu gwasanaeth teledu Cymraeg o ansawdd uchel sy'n cynnwys amrediad eang o raglenni amrywiol ar gyfer lleadaenu gwybodaeth, adloniant ac addysg.

Yn yr Aseiad Perfformiad hwn, mae’r Awdurdod yn pwysu a mesur i ba raddau y cyflawnwyd yr amcan hwn yn 2012. Wrth wneud hynny, rydym yn cyflwyno adolygiad ansoddol ochr yn ochr â naw mesur meintiol a osodir o fewn fframwaith sy'n cyfeirio at Ddefnydd a Chyrhaeddiad, Gwerth, Gwerthfawrogiad ac Effaith.

Cynnwys	tud
Adolygiad o ansawdd	16
Y Mesuryddion Perfformiad	26
Mesuryddion:	
- Defnydd a Chyrhaeddiad	28
- Gwerth	44
- Gwerthfawrogiad	56
- Effaith	60

Adolygiad o Ansawdd S4C yn 2012

Yn ystod y flwyddyn, mae Pwyllgor Cynnwys yr Awdurdod wedi ystyried adroddiadau ar gynnwys a pherfformiad rhaglenni ym meysydd Ffeithiol, Plant, Chwaraeon, Newyddion, a Drama yn ogystal ag adolygiadau o berfformiad Amserlen 2012 ar nifer o achlysuron yn ystod y flwyddyn.

Mae’r Pwyllgor, sy’n cyfarfod bob deufis, hefyd yn rhoi sylwadau ar raglenni a chyfresi unigol eraill sy’n ymddangos yn ystod y flwyddyn. Mae adroddiadau’r Pwyllgor Cynnwys yn cael eu hystyried ymhellach yng nghyfarfodydd misol yr Awdurdod. Mae’r gorolwg canlynol yn seiliedig ar y trafodaethau hyn.

Wrth frwr golwg dros arlwy rhaglenni 2012, dylid cofio mai 2012 oedd y flwyddyn gyntaf i effeithiau lefel ariannu is ar gyfer cynnwys S4C gael ei weld gan y gwylwyr yn yr arlwy a ddarparwyd. O ystyried hyn a bod y gyllideb ar gyfer comisiynu wedi gostwng o ganlyniad o £83.7m yn 2010 i £67.9m yn 2012, mae’r Pwyllgor Cynnwys a’r Awdurdod o’r farn bod perfformiad y gwasanaeth wedi bod yn ganmoladwy ac o fewn disgwyliadau rhesymol yr Awdurdod.

Cyd-destun digwyddiadau 2012
Roedd 2012 yn flwyddyn o ddigwyddiadau traws-Brydeinig ar sianelau eraill, gyda Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain yn denu cynulleidfaoedd sylweddol ar deledu ac ar lwyfannau digidol. Yn ystod cyfnod y gemau, gwelwyd cwymp o oddeutu 25% yn ffigurau gwyllo S4C. Roedd hefyd yn flwyddyn o adnewyddiad creadigol gan raglenni ITV, yn arbennig ym maes adloniant. Cyfyngodd y ddau ffactor yma ar allu S4C i barhau i gynyddu cyrhaeddiad gwyllo, fel yn 2011.

Newidiadau i’r amserlen
Ym mis Mawrth, fe lansiyd amserlen newydd er mwyn gwireddu egwyddorion Gweledigaeth 2012 a Thu Hwnt, strategaeth oedd wedi ei chynllunio i ymateb i’r her o leihad mewn cyllid a hefyd i’r newid hinsawdd technolegol a chymdeithasol, mewn cyfnod cwbl ddigidol ac aml lwyfan.

Roedd dyhead yn y strategaeth hon i adlewyrchu amrywiaeth bywydau a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt, gan ysgogi a hybu dealltwriaeth o’n byd. Y bwriad oedd creu rhaglenni ‘rhaid eu gweld’ a fyddai’n cryfhau hunaniaeth a diwylliant, ac a fyddai’n ‘destun trafod ar lawr gwlad’ trwy ddod â chynulleidfaoedd at ei gilydd i drafod a rhannu profiadau.

Gyda lansiad yr amserlen newydd, fe gyflwynwyd cyfresi newydd, **Prynhawn Da** a **Heno** (Tinopolis), yn lle **Wedi 3** a **Wedi 7** (Tinopolis). Bu ymgais fwriadol yma i newid pwyslais golygyddol **Heno** gan gynnwys mwy o wynebau cyfarwydd Cymru ynghyd â newyddion adloniant. Cyflwynwyd mwy o ddogfennau hanner awr, o natur ysgafn. Symudwyd **Sgorio** (Rondo) i slot gynharach ganol wythnos. Ail-ddarllledwyd **Pobol y Cwm** (BBC Cymru) a **Heno** yn hwyrach yr un noson.

Daeth yn amlwg, fodd bynnag, nad oedd holl agweddau newydd yr amserlen at ddant y gynulleidfa, ac roedd aelodau’r Awdurdod yn rhannu’r pryderon a fyngewyd gan nifer fawr o wylwyr. Yn gyffredinol, roedd yna ganfyddiad o ddiffyg sylwedd ac o golli’r cysylltiad gyda chymunedau lleol. Aed ati i addasu’r amserlen a’r cynnwys yng ngoleuni’r ymateb a chafwyd gwerthfawrogiad eang i’r ymateb prydlon yma i farn y gynulleidfa. Erbyn canol y flwyddyn roedd ymchwil gan gwmi Beaufort Research yn dangos ymateb ffafriol i’r amserlen ddiwygiedig. Er yn cytuno fod yna le i wella’n dal i fod ar rai agweddau, mynegodd yr ymchwil deimlad fod yr amserlen yn ffres a newydd, a bod elfennau o hyder a risg yn cael eu hadlewyrchu, a hynny’n cael ei groesawu.

Ail sefydlwyd ail ddarllediadau **Pobol y Cwm** y gynnar yn y nos yn ystod yr wythnos a hefyd dechreuwyd ail ddarlledu **Heno** yn gynnar ar y prynhawn canlynol. Crëwyd dwy slot newydd i bobl ifanc gyda’r hwyr, trwy ddarlledu adloniant ifanc ar nos Fercher am 10 yr hwyr a rhaglen gylchgrawn ar gyfer pobl ifanc ar nos lau am 10 yr hwyr. Fe ail sefydlwyd Sgorio yn ei slot arferol nos Lun am 10 yr hwyr ac fe gryfhawyd cynnwys rhaglenni ffeithiol, gan ail dorri rhai rhaglenni hanner awr i fod yn awr o sylwedd. Fe lwyddwyd i gyflawni’r newidiadau yma heb wariant ychwanegol.

Dathlu Pen-blwydd S4C yn 30
30 mlynedd yn ôl i fis Tachwedd 1982 croesawodd Owen Edwards y gynulleidfa i aelwyd S4C am y tro cyntaf. Cafwyd wythnos o dathlu’r pen-blwydd pwysig hwn ar y sgrin

ym mis Tachwedd. Gwerthfawrogwyd y cyfle i wylwyr bleidleisio dros eu hoff raglenni ym mhob maes.

Fe nodwyd sawl pen-blwydd arall mewn rhaglenni yn ystod y flwyddyn. Hanner canrif ynghynt, ym 1962, roedd darlith radio Saunders Lewis wedi rhagweld diwedd y Gymraeg fel ‘iaith fyw’ erbyn dechrau’r unfed ganrif ar hugain ac roedd yn briodol ceisio gosod geiriau’r ddarlith wreiddiol yng nghyd-destun y Gymru gyfoes mewn rhaglen feddylgar, **Tynged yr Iaith** (P.O.P. 1), a gyflwynwyd gan y gwleidydd, Adam Price. Roedd **Cymdeithas yr Iaith yn 50** (Rondo), a’r ddwy raglen fyw o’r gyngerdd **Gig 50** (Rondo) a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid, mewn gwahanol ffyrdd yn nodi a disgrifio’r gweithgarwch gwleidyddol arwyddocaol a ddeilliodd o’r ddarlith. Dathlodd y rhaglen ddogfen, **Theatr Fawr Felinfach** (Wes Gleï a Cynhyrchiadau Hay), ben-blwydd y theatr gymunedol arloesol hon yng Ngheredigion yn 40 oed ac fe nodwyd 30 mlynedd ers dechrau **Rhyfel y Falklands: Nôl i Faes y Frwydr** (BBC Cymru) gyda dwy raglen ddadlennol gan gynnwys **Y Galahad** (Barefoot Rascals). Gan mlynedd ers suddo’r llong enwog archwiliodd **Cymry’r Titanic** (P.O.P 1) gefndir un o drychinebau morwrol mwyaf erchyll y byd gan ddarganfod cysylltiadau Cymreig y digwyddiad.

Drama
Ar sail ffigyrau gwyllo, ymateb gwylwyr ac ym marn yr Awdurdod, mae drama ar S4C yn parhau yn un o elfennau cryfaf y gwasanaeth. Roedd cymdeithas fodern a thriniaethau amrywiol o destunau cyfoes yn amlwg mewn nifer o’r cyfresi, gydag amrywiaeth o gynnwys a ffurf.

Fe barhaodd **Pobol y Cwm** a **Rownd a Rownd** (Rondo) yn gonglfeini pwysig yn yr amserlen yn ystod y flwyddyn, gan berfformio’n dda, ac fe gynigwyd ystod o gyfresi dramâu gwreiddiol ar nos Sul oedd o ansawdd uchel ac yn ddeniadol i’n cynulleidfa. Denodd ail gyfres **Gwaith/Cartref** (Fiction Factory) yr un ymateb brwd â’r gyntaf, gan fentro i feysydd mwy dirdynnol heb golli ei hapêl. Roedd arddull y gyfres hynod o boblogaidd, **Teulu** (Boom Pictures), yn adleisio crefft teledu poblogaidd Americanaidd heb golli rhin ei lleoliad yng Ngheredigion. Roedd gan ail gyfres **Alys** (Teledu Apollo) dasg anodd i adeiladu ar y gyfres gyntaf, gyda’i helfennau o dwyll, rhagfarn, rhyw a thrais, a chymysg oedd yr ymateb iddi. Roedd rhai yn ei chael hi’n anodd gweld beth oedd pwnc canolog y gyfres newydd, ond i eraill, roedd yr ansicrwyd yma’n rhan o’r boddhad a gafwyd o’i dilyn i’w diweddglo. Fe ddenodd y tair cyfres gynulleidfaoedd da a bu gwyllo cryf ar Clic

Assessing Performance 2012

The S4C Authority has a duty to provide a high-quality Welsh language television service which includes a broad range of diverse programming, providing information, entertainment and education.

In this Performance Assessment, the Authority measures the extent to which this objective was achieved in 2012. In doing so, we present a qualitative review alongside nine quantitative measures set within a framework that refers to Usage and Reach, Value, Appreciation and Impact.

Content	Page
Quality Review	17
The Performance Measures	26
Measures:	
- Usage and Reach	28
- Value	44
- Appreciation	56
- Impact	60

Quality Review of S4C in 2012

During the year, the Authority’s Content Committee has considered reports on the content and performance of programmes in the genres of Factual, Children, Sport, News, and Drama as well as reviews of the performance of the 2012 Schedule on numerous occasions during the year.

The Committee, which meets every two months, also comments on programmes and individual series that appear during the year. The Content Committee’s reports are further considered in the Authority’s monthly meetings. The following overview is based on these discussions.

In reviewing the programme provision in 2012, it must be borne in mind that 2012 was the first year in which the impact of the reduced funding available for S4C’s content was seen by viewers. Given this, and the fact that the budget for commissioning has reduced as a result from

£83.7m in 2010 to £67.9m in 2012, the Content Committee and the Authority are of the view that the performance of the service has been commendable and within the Authority’s reasonable expectations.

Context of events in 2012
2012 was a year of UK-wide events on other channels, with the London Olympics and Paralympics drawing significant audiences on television and digital platforms. During the period of the Games, there was a drop of around 25% in S4C’s viewing figures. It was also a year of creative renewal by ITV programmes, particularly in the entertainment genre. These two factors restricted S4C’s ability to continue to increase its audience reach, as in 2011.

Changes to the schedule
In March, a new schedule was launched, that aimed at realising the principles of ‘S4C’s Vision 2012 and Beyond’, a strategy which sought to respond to the challenge of a reduction in funding and also to the change in the technological and social climate, in a fully digital and multi-platform era.

There was an aspiration in this policy to reflect the diversity of lives and communities in Wales and beyond, thereby encouraging and promoting an understanding of our world. The aim was to create ‘must see’ programmes that would strengthen our identity and culture, and which would be widely talked about, by bringing audiences together to discuss and share experiences.

With the launch of the new schedule, new series, namely **Prynhawn Da** (Tinopolis) and **Heno** (Tinopolis), were introduced to replace **Wedi 3** (Tinopolis) and **Wedi 7** (Tinopolis). There was a conscious effort here to change the editorial emphasis of Heno by including more of the familiar faces of Wales along with entertainment news. More lighter half-hour, documentaries were introduced. **Sgorio** (Rondo) was moved to an earlier slot in mid-week. **Pobol y Cwm** (BBC Cymru) and **Heno** were repeated later the same evening.

It became clear, however, that not all new aspects of the schedule were to the audience’s taste, and members of the Authority shared the concerns that were voiced by a large number of viewers. In general, there was a perception of a lack of substance and of losing the connection with local communities. Steps were taken to adapt the schedule and the content in light of the response and there was widespread appreciation of this prompt response to the audience’s views. By the middle of the year,

research conducted by Beaufort Research showed a favourable response to the revised schedule. Whilst agreeing that there was still room for improvement in relation to some aspects, the research revealed a feeling that the schedule was fresh and new, and that elements of confidence and risk were being reflected, which was welcomed.

Repeats of **Pobol y Cwm** early during weekday evenings were re-established and also repeats of **Heno** early the following afternoon. Two new late-night slots were created for young people, by broadcasting youth entertainment on Wednesday evenings at 10pm and a magazine programme for young people on Thursday evenings at 10pm. **Sgorio** was re-instated to its usual slot on Monday evenings at 10pm and the content of factual programmes was strengthened, with some half-hour programmes being re-cut to an hour of substance. These changes were implemented with no additional expenditure.

Celebrating the 30th Anniversary of S4C
30 years ago in November 1982 Owen Edwards welcomed the audience to S4C for the first time. A week-long celebration of this important anniversary took place on screen in November. There was an appreciation of the opportunity for viewers to vote for their favourite programmes in all genres.

Many other anniversaries were marked in programmes during the year. Fifty years earlier, in 1962, Saunders Lewis’ radio lecture had predicted the end of the Welsh language as a ‘living language’ by the beginning of the twenty first century and it was fitting to try and set the words of the original lecture within the context of modern Wales in a thoughtful programme, **Tynged yr Iaith** (P.O.P.1), presented by politician Adam Price. **Cymdeithas yr Iaith yn 50** (Rondo), and the two live broadcasts of the **Gig 50** (Rondo) concert held in Pontrhydfendigaid Pavilion, in different ways, marked and described the significant political activity that stemmed from the lecture. The documentary, **Theatr Fawr Felinfach** (Wes Gleï a Cynhyrchiadau Hay), celebrated the 40th anniversary of this innovative theatre in Ceredigion and **Rhyfel y Falklands: Nôl i Faes y Frwydr** (BBC Cymru) marked 30 years since the outbreak of the Falklands War with two revealing programmes including **Y Galahad** (Barefoot Rascals). One hundred years since the Titanic went down, the programme **Cymry’r Titanic** (P.O.P.1) explored the background to one of the world’s most horrendous maritime disasters and discovered the incident’s Welsh links.

Drama
Viewing figures, the response of viewers, and the Authority’s own opinion support the view that drama on S4C continues to be one of the strongest elements of the service. Modern society and various treatments of contemporary issues featured prominently in many of the series, with a variety of content and form.

Pobol y Cwm and **Rownd a Rownd** (Rondo) continued as important cornerstones of the schedule and performed well during the year. In addition a range of original drama series was offered on Sunday evenings which was of a high quality and attractive to our audience. A second series of **Gwaith/Cartref** (Fiction Factory) drew the same enthusiastic response as the first, and ventured into sharper edged territory without losing its appeal. The style of the extremely popular series, **Teulu** (Boom Pictures), echoed the craft of popular American TV without losing the essence of its setting in Ceredigion. The second series of **Alys** (Teledu Apollo) faced a difficult task in building on the



Alys



Sgorio

iddynt hefyd. Er y llwyddiannau hyn, rhaid nodi y lleihad yn nifer y cyfresi drama gwreiddiol a ddarledwyd, gyda bwlch o ryw bum mis rhwng diwedd **Gwaith/Cartref** a dechrau **Alys** – effaith digamsyniol y cwtogi ariannol.

Fe enillodd y ffilm **Patagonia** (Malacara) bedair gwobr Bafta Cymru, gan gynnwys gwobr i'r cyfarwyddwr, Marc Evans. Fe ddenodd y ddau ddarlediad ar S4C gynulleidfa ifanc, rhwng 16 a 44 oed.

Chwaraeon

Mae darpariaeth chwaraeon byw yn bwysig i amserlen pob darledwr cyhoeddus, ac nid yw S4C yn eithriad i hyn. Anelwyd at adlewyrchu rhychwant eang y byd chwaraeon yng Nghymru ac mae gwylwyr yn parhau i gyfeirio at S4C fel un o brif ddarparwyr cynnwys chwaraeon Cymru.

Roedd 2011 yn flwyddyn nodedig i chwaraeon yng Nghymru gyda Chwpan Rygbi'r Byd a nifer o gemau pel-droed o bwys yn creu uchelfannau torfol o fewn amserlen S4C. Nid yw'n bosibl sicrhau gwefr a pherfformiad digwyddiadau o'r fath bob blwyddyn, ac mae'r Awdurdod yn nodi natur anghyson yr arlwy chwaraeon wrth asesu perfformiad tymor byr y gwasanaeth.

Chwaraeon byw yw'r prif atyniad i'r gwylwyr, gyda rhaglenni o uchafbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi dipyn llai. Mae'r gystadleuaeth ar gyfer hawliau chwaraeon byw yn cynyddu. Gydag adnoddau ariannol llai, bydd yn rhaid pwyso a mesur yn ofalus y gwerth am arian a ddarperir gan unrhyw hawliau ddaw dan ystyriaeth. Er hynny, mae rhaglenni chwaraeon bach a mawr yn sicr yn gwneud cyfraniad pwysig i gyrhaeddiad S4C, ymysg siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a'r di-Gymraeg, a hynny ym mhob rhan o Gymru a rhaid cydnabod hefyd yr incwm masnachol sy'n gallu deillio o ddarpariaeth chwaraeon poblogaidd. Y darllediad o gêm **Wrecsam yn erbyn Brighton** (Rondo) yng Nghwpan yr FA ym mis Ionawr ddenodd gynulleidfa uchaf y sianel yn ystod y flwyddyn, gyda 433,000 o wylwyr.

Lle'r oedd hawliau'n caniatáu, darlledwyd sylwebaeth Saesneg ychwanegol trwy'r botwm coch, gydag S4C Masnachol yn talu am hyn. Dim ond ar S4C y mae modd gwyllo pêl-droed domestig yn fyw ar y penwythnos ac mae'r arlwy wythnosol byw o Gynghrair Cymru ar brynhawn Sadwrn yn **Sgorio** (Rondo) ar y cyfan yn denu gwerthfawrogiad uchel iawn er bod rhai o ddilynwyr mwyaf brwd clybiau Cymru'n nodi bod darlledu ar brynhawn Sadwrn yn anghyfleus i'r rhai sy'n gwyllo gemau byw ledled Cymru adeg y darllediadau. Ond mae lle cynyddol i amau a yw'r crynodeb o uchafbwyntiau a geir yn ystod yr wythnos yn cynnig rheswm digonol i droi i mewn.

Mae chwaraeon eraill, ar wahân i rygbi a pêl-droed, yn cael eu dilyn yn eang yng Nghymru, ac mae rhoi sylw i rai ohonynt yn rhan briodol o genhadaeth sianel genedlaethol.

Am y tro cyntaf yn hanes S4C, fe ddarlledodd criw **Ralio+** (Tinopolis) raglen arbennig ar rasys beiciau modur y TT yn Ynys Manaw ym mis Mehefin. Fis yn ddiweddarach, darlledwyd **Ty'n Lôn Volvo Ras yr Wyddfa** (Cwmni Da), pan wnaeth o amgylch 600 o redwyr dacló Ras Ryngwladol 2012, o lannau Llyn Padarn i fyny ac wedyn i lawr copa'r Wyddfa (3,560 troedfedd). Fe diwniodd 38,000 o bobl i fewn i wyllo'r rhaglen yng Nghymru, gyda 1,700 yn ei gwyllo ar Clic.

Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain oedd uchafbwyntiau'r byd chwaraeon yn 2012, ac er nad oedd gan S4C hawliau i ddarlledu'r gemau, fe geisiwyd adlewyrchu cynnwrf a chysylltiadau Cymreig y gemau trwy gyfrwng **Newyddion** a rhaglenni arbennig am athletwyr

o Gymru, gan gynnwys **Aur Paralympaidd Aled Davies** (Boom Pictures). Yn hon, cafwyd darlun effeithiol o fywyd athletwr ifanc o Gymru, Aled Siôn Davies, yn cael ei drawsnewid yn ystod y Gemau Paralympaidd wrth iddo droi'n seren fyd-eang. Dyma enghraifft effeithiol o ddefnyddio achlysur byd-eang fel llwyfan i gynnwys unigryw a pherthnasol i Gymru heb orfod buddsoddi mewn hawliau drudfawr.

Yn Rhagfyr, darlledwyd rhaglen ddogfen arbennig, **Gary Speed: Arwr Cymru** (Rondo) oedd yn ystyried gwir faint y golled ar ôl marwolaeth ddisymwth y pêl-droediwr a'r rheolwr ifanc. Roedd gwerthfawrogiad y gynulleidfa i'r driniaeth sensitif o'r pwnc i'w weld o'r ymateb ar gyfryngau cymdeithasol megis Trydar ac fe gyrhaeddodd y rhaglen 113,000 o wylwyr ar draws y DU.

Ar Ŵyl San Steffan, dilynodd rhaglen **Jonathan 50** (Avanti) daith y seren rygbi Jonathan Davies pan dderbyniodd yr her, yn 50 oed, i seiclo 390 cilomedr drwy wres llethol arfordir gorllewinol UDA, er budd Canolfan Ganser Felindre, Caerdydd. Fe gafodd gynulleidfa dda, gyda nifer uchel o'r De, a bron eu hanner yn ddi-Gymraeg.

Digwyddiadau

Mae gallu S4C i roi sylw estynedig i ddigwyddiadau o ddiddordeb Cymreig, a chefnogaeth S4C i ddigwyddiadau ledled Cymru yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi gan y gynulleidfa sydd erbyn hyn yn disgwyl darpariaeth gynhwysfawr o ddigwyddiadau cenedlaethol fel arfer dros gyfnod yr haf bob blwyddyn. Yn ogystal â darlledu gweithgareddau'r gwyliau, mae datblygu partneriaethau gyda'r mudiadau sy'n trefnu'r gwyliau hyn yn sicrhau gwerth cyhoeddus ychwanegol ar sail y buddsoddiad a wneir.

Fe drodd 1.2m o bobl i mewn i raglenni Digwyddiadau S4C ar deledu, a bu dros 123,000 o sesiynau gwyllo ar-lein i raglenni o'r digwyddiadau.

Yn 2012, darlledwyd gwasanaeth estynedig o **Eisteddfod Yr Urdd** (Avanti), **Eisteddfod Ryngwladol Llangollen** (Rondo), **Y Sioe Frenhinol** (Boom Pictures) ac **Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg** (BBC Cymru), ac roedd uchelgais a safon yr arlwy yn gyffredinol uchel. Yn ogystal, fe ddarlledwyd cynnwys o ddigwyddiadau llai amlwg, gan adlewyrchu'r croesdoriad a'r amrywiaeth o ddiddordebau sy'n rhan annatod o gymdeithas fodern.

Datblygiad o Ŵyl y Faenol oedd **Bryn Terfel: Gŵyl y Byd** (Boom Pictures), cyfres o



gyngherddau o dan gyfarwyddyd Bryn Terfel a gynhaliwyd yn y Festival Hall yn Llundain yn ystod mis Gorffennaf, ac a welwyd fel rhan o'r cyfraniad Cymreig i'r Olympiad Celfyddydol. Roedd y perfformiadau a'r cyflwyniadau teledu'n safonol a graenul, er i rai gwylwyr fod o'r farn fod yr arlwy'n ddiffygiol o ran cynnwys Cymreig.

Cyfres thematig

Unwaith eto ym mis Mehefin cyflwynwyd wythnos o raglenni thematig yn dilyn taith o amgylch Cymru. Y tro hwn, diwylliant a hanes pobl Romani Cymru oedd testun **Y Sipsiwn** (Telesgop) ac yn sgil taith y garafán, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau cymunedol. Roedd natur y cynhyrchiad yn gosod sialens strwythurol ac roedd adborth y gynulleidfa yn awgrymu nad oedd y gynulleidfa yn gweld dilyniant clir rhwng y gwahanol elfennau. Er hynny, roedd yna werthfawrogiad i'r syniad o wythnos o raglenni thematig, ac i'r thema benodol oedd dan sylw, a denodd y gyfres gynulleidfa barchus.

Cerddoriaeth

Arweiniodd y canwr a'r cyflwynydd Aled Jones wylwyr S4C ar daith gerddorol o amgylch Ewrop yn **Aled Jones: Fy Nhaith Glasurol** (Destinations Media). Fe deithiodd y canwr dros fil o gilomedrau, o brifddinas Hwngari, Budapest i Amsterdam i ddarganfod mwy am rai o gyfansoddwyr clasurol mwya'r byd a'r lleoliadau oedd wedi eu hysbrydoli. Roedd yma luniau ysblennydd a saethu celfydd ond ym marn rhai gwylwyr roedd angen mwy o gynnwys cerddorol gwreiddiol.

Yn Ebrill, fe wnaeth y gyfres **Only Kids Aloud** (Rondo) gynnwys perfformiad Corws Plant mewn perfformiad o Symffoni Rhif 8 gan Mahler, lle'r oedd y plant yn rhannu llwyfan gyda Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC a cherddorfa fyd-enwog Theatr Mariinsky o Rwsia. Roedd y gwyllo a'r gwerthfawrogiad yn gryf. Ym Mehefin, fe ddarlledwyd première Ewropeaidd o'r opera **Trioleg Mandela** (Bulb), cynhyrchiad egniol Cwmni Opera Cape Town o stori bywyd y gwladweinydd Nelson Mandela, o Ganolfan y Mileniwm, Caerdydd. Cynigwyd dewis o isdeitlau Cymraeg a Saesneg gan fod canran sylweddol o iaith yr opera mewn ieithoedd ac eithrio'r Gymraeg. Daeth yr Awdurdod i'r casgliad fod y cyfle i gyflwyno première Ewropeaidd y gwaith yn gyfiawnhad golygyddol digonol dros y darllediad. Er hynny, o gofio mai sianel Gymraeg ydi S4C, roedd yn sbardun i sicrhau bod swyddogion a chynhyrchwyr yn parhau'n ymwybodol o ofynion Canllawiau Iaith Rhaglenni'r sianel.

first, with its elements of deceit, prejudice, sex and violence, and it received a mixed response. Some people found it difficult to find the core subject of the new series and for others, this uncertainty contributed to the enjoyment of following the series to the end. All three series attracted good audiences and they were also the subject of strong viewing on Clic. Despite these successes, we note the reduction in the number of original drama series that were broadcast, with a gap of about five months between the end of **Gwaith/Cartref** and the start of **Alys** – a clear impact of the reduction in finance.

The film **Patagonia** (Malacara) won four Bafta Cymru awards, including an award for the director, Marc Evans. Both showings on S4C attracted a young audience, between 16 and 44 years old.

Sport

Sport is important in the schedule of every public service broadcaster, and S4C is no exception. The aim is to reflect the wide range of Welsh sport and viewers still refer to S4C as one of the main providers of Welsh sporting content.

2011 was a notable year for sport in Wales with the Rugby World Cup and many football games of note creating high points for mass viewing within the S4C schedule. It is not possible to guarantee the thrill and performance of such events every year, and the Authority takes into account the inconsistent nature of the sport provision when assessing the service's short term performance.

Live sport is the main attraction for viewers, with highlights programmes being appreciated considerably less. The competition for live sporting rights is increasing. With scarcer financial resources, the value for money provided by any rights that come under consideration will have to be carefully evaluated. Nevertheless, programmes that feature sports, both big and small, make an important contribution to S4C's reach, among Welsh speakers, learners and non-Welsh speakers in all parts of Wales and the commercial income that can stem from popular sport provision must also be recognised. The coverage of the **Wrexham v Brighton** (Rondo) FA Cup tie in January attracted the channel's biggest audience during the year, reaching 433,000 viewers.

Where rights permitted, additional English language commentary was broadcast via the red button, funded by S4C Masnachol. It is only

on S4C that domestic football can be viewed live at weekends and the live weekly provision from the Welsh Premier League on Saturday afternoons in **Sgorio** (Rondo) generally draws a very high appreciation although some of the most ardent followers of Welsh clubs note that broadcasting on a Saturday afternoon is inconvenient for those who attend live matches across Wales at the same time as the broadcasts. However there is increasing reason to doubt whether the round-up of highlights shown during the week provides a strong enough reason to tune in.

Other sports, apart from rugby and football, have a wide following in Wales, and featuring some of them is an appropriate part of a national channel's mission.

For the first time in the history of S4C, the **Ralio+** (Tinopolis) team broadcast a special programme on the Isle of Man TT during June. A month later, **Ty'n Lôn Volvo Ras yr Wyddfa** (Cwmni Da) was broadcast, when around 600 runners tackled the 2012 Snowdon International Race, from the banks of Llyn Padarn up and then down the summit of Snowdon (3560 feet). 38,000 people tuned in to view the programme, with 1,700 viewing it on Clic.

The London Olympics and Paralympics were the highlights of the sporting calendar in 2012, and although S4C had no rights to broadcast the Games, there were attempts to reflect their excitement and their Welsh connections through news items on **Newyddion** and special programmes about Welsh athletes, including **Aur Paralympaidd Aled Davies** (Boom Pictures). This programme depicted effectively how the life of a young athlete from Wales, Aled Siôn Davies, was transformed during the Paralympics as he became a global star. This is an effective example of a global event being used as a platform for content that is unique and relevant to Wales without having to invest in expensive rights.

In December, a special documentary, **Gary Speed: Arwr Cymru** (Rondo), was broadcast and considered the true extent of the loss following the death of the young footballer and manager. The audience's appreciation of the sensitive treatment of the subject was evident in their reaction on social media such as Twitter and the programme reached 113,000 viewers across the UK.

On Boxing Day, **Jonathan 50** (Avanti) followed the journey of rugby legend Jonathan Davies, when he accepted the challenge, at 50 years of



age, of cycling 390km through the sweltering heat of the USA's West Coast, for the benefit of Velindre Cancer Centre, Cardiff. The programme attracted a good audience, with a high number from South Wales, almost half of whom were non-Welsh speakers.

Events

S4C's ability to provide extended coverage for events of Welsh interest as well as S4C's support for events throughout Wales, are recognised and appreciated by the audience who now expect comprehensive coverage of national events, usually over the summer period every year. As well as providing coverage of the festivals themselves, the partnerships developed with these organisations ensure added public value from the investment made.

1.2m people tuned in to S4C Events programmes on television, and there were over 123,000 online viewing sessions for programmes from the events.

In 2012, an extended service was broadcast from the **Urdd Eisteddfod** (Avanti), the **Llangollen International Eisteddfod** (Rondo), **The Royal Welsh Show** (Boom Pictures) and the **Vale of Glamorgan National Eisteddfod** (BBC Cymru), and the ambition and standard of the provision were generally high. Additionally, content was broadcast from less prominent events, reflecting the broad range and diversity of interests which are an integral part of modern Welsh society.

Bryn Terfel: Gŵyl y Byd (Boom Pictures) was a development of the Faenol Festival in the form of a series of concerts, overseen by Bryn Terfel, which were held at the Festival Hall, London during July and which were seen as part of the Welsh contribution to the Cultural Olympiad. The performances and television presentation were of a high and polished standard, although some viewers were of the view that the provision was lacking in terms of Welsh-themed content.

Thematic series

Once again in June a week of thematic programmes was presented, following a journey around Wales. This time, **Y Sipsiwn** (Telesgop) focused on the culture and history of the Romany people of Wales, and a number of community events were arranged to coincide with the caravan's tour. The nature of the production presented a structural challenge and the feedback from the audience suggested that it did not see a clear sequence between the different elements. Nevertheless, there was appreciation for the idea of a week of thematic programmes, and for the specific theme concerned, and the series drew a respectable audience.

Music

Singer and presenter Aled Jones led S4C viewers on a musical journey around Europe in **Aled Jones: Fy Nhaith Glasurol** (Destinations Media). The singer travelled over a thousand kilometres, from the Hungarian capital, Budapest, to Amsterdam in order to discover more about some of the world's greatest classical composers and the locations that had inspired them. There were spectacular pictures and skilful filming but in the view of some viewers there was a need for more original musical content.

In April, **Only Kids Aloud** (Rondo) included a Children's Chorus performing Mahler's 8th Symphony, where the children shared a stage with the BBC National Chorus of Wales and the world-famous Mariinsky Theatre orchestra from Russia. There was strong viewing and appreciation. In June, S4C broadcast the European première of the **Mandela Trilogy** (Bulb) opera, an energetic production by

Ym mis Medi, darlledwyd uchafbwyntiau **Gŵyl Gobaith 2012** (Avanti), o Goleg Glannau Dyfrdwy/Prifysgol Glyndŵr, Llaneurigain a oedd yn cynnwys perfformiadau gan y tenor Rhys Meirion, a gerddodd gannoedd o filltiroedd ar draws Cymru i hel arian ar gyfer gwasanaeth Ambiwilans Awyr Cymru. Dyma enghraifft arall o ddarllediad oedd hefyd yn bartneriaeth gymunedol lwyddiannus.

Tu hwnt i'r byd clasurol, fe ddilynwyd ymgais cwmni recordio Decca a'r asiant talent Sioned James o Gaerdydd i ddot o hyd i'r seren ganu nesaf o Gymru yn y gyfres newydd, **Llais i Gymru** (Boom Pictures). Dilynwyd y pedwar ymgeisydd terfynol ar daith heriol wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau er mwyn ennill cytundeb recordio. Bu cryn drafod am y gyfres yma ac o bosib iddi gynnwys gormod o Saesneg. Bu gwerthfawrogiad da iawn fodd bynnag, gyda sgôr AI o 81.

Yn ogystal, yn y gyfres wreiddiol dair rhan o'r gyngerdd Nadoligaidd, **Carolau Gobaith** (Teledu Apollo), fe wnaeth chwech o sêr Cymru, oedd heb brofiad o ganu'n gyhoeddus, wirfoddoli i ganu yn y gyngerdd, a recordio CD er mwyn codi arian at achosion da..

Adloniant

Yn ystod y flwyddyn, bu pwyslais cynyddol ar adloniant teuluol, yn enwedig ar nosweithiau Sadwrn gyda chyfresi cyfarwydd fel **Noson Lawen** (Cwmni Da), lle cafwyd croeso wrth iddi ddychwelyd at fformat mwy traddodiadol, llai “teledol”, ond gan barhau i anelu at safonau cynhyrchu cyfoes. Dychwelodd **Siân a Siân** (ITV) i’r sgrin ar ei newydd wedd ynghyd â’r hen fformat cwis, **Jacpot** (Tinopolis). Camsyniad, o bosib, oedd ail-gyflwyno’r ddwy gyfres draddodiadol yma’r un pryd, yn sicr o ran barn ein “Panel Pobl” ac o’r ddwy, **Siôn a Siân** (ITV Cymru) brofodd y fwyaf poblogaidd. Ar ddydd Gŵyl Ddewi, darlledwyd sioe arbennig, **Noson yng Nghwmni Caryl** (Boom Pictures), oedd yn arddangos doniau creadigol Caryl Parry Jones, fel cantores, actores, bardd, awdures ac un o’r enwau mwyaf amlwg yn y byd adloniant yng Nghymru yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Dair noson yn ddiweddarach, cafodd gwylwyr y cyfle i ryngweithio ac ymateb i noson fawr **Cân i Gymru 2012** (Avanti), trwy’r defnydd o ffrwd trydar benodol, #CIG2012. Roedd modd hefyd i’r gwylwyr argraffu taflen sgorio oddi ar y wefan a’i defnyddio i roi marciau i bob cân a phleidleisio dros y ffôn am eu ffefrynnau. Bu ymateb da, gyda dros 8,000 o bleidleisiau a llawer iawn o drydar ar y noson. Yn dilyn trafodaeth a sbardunwyd ar enillydd y gystadleuaeth, Gai Toms, penderfynwyd cyflwyno nifer o newidiadau pwysig i fformat y rhaglen ar gyfer 2013, i’w dwyn yn agosach at fwrllwm canu byw cyfoes.

Mae cyfres **Jonathan** (Avanti), a ddangosir cyn gemau rygbi rhyngwladol, yn dal i daro’r hoelen ar ei phen gyda’i chyfuniad o hwyl amharchus, sêr wedi ymlacio a phorthi’r cynnwrf rygbi cenedlaethol. Mae’r rhaglen yn gwybod beth yw ei chryfder ac yn gweithio’n galed i’w chadw’n ffres o gyfres i gyfres. Mae’n un o’r rhaglenni gorau am ddenu gwylwyr sy’n siarad Cymraeg ond sydd ddim yn gwylio S4C yn rheolaidd.

Ysgogwyd un o bynciau trafod mawr y flwyddyn, o ran y cyfryngau Cymraeg, gan y darllediad estynedig o **Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc** (Rondo a Telesgop) ym mis Tachwedd, yn benodol yn yr ymateb i rai o’r sgetsys. Ar y naill law, roedd rhai gwylwyr wedi eu ffeiddio gan yr hyn roedden nhw’n ei weld fel stereoteipiau hiliol, tra roedd eraill yn credu’n gryf mai hiwmor diniwed cefn gwlad a gafwyd yma. Barn swyddogion S4C oedd fod canllawiau’r hyn sy’n briodol ar gyfer darlledu

wedi eu torri mewn o leiaf un achos. Aed ati i drafod yn fanwl gyda’r trefnwyr sut y mae sicrhau fod safonau darllediad cenedlaethol yn cael eu parchu yn y dyfodol, heb amharu ar frwdfrydedd a hwyl y gystadleuaeth amatur yma, a brofodd, fel arall, yn hynod boblogaidd, ac a gyflwynodd dalentau disglair ieuencid cefn gwlad i’r sgrin.

Hamdden a Nodwedd

Er iddo fod yn wyneb eithaf cyfarwydd ar S4C yn y gorrffennol, am y tro cyntaf fe gafodd y cogydd Bryn Williams ei gyfres ei hun yn **Cegin Bryn** (Fflic) lle bu’n rhannu ei gyfrinachau coginio a dewis chwe chynhwysyn tymhorol. Roedd yn braf clywed acen Dyffryn Clwyd ar y sianel ac roedd ei arbenigrydd fel cogydd yn dod â hygydedd arbennig i’r gyfres.

Fe wnaeth **Prosiect: Rhys Ifans** (Damage) ddatgelu ochr sensitif, feddylgar ac angerddol i’r actor byd-enwog. Roedd y prosiect hwn hefyd yn gyfle i gynnig cynnwys uchwanegol ar lwyfannau digidol. Bu canmol mawr i’r rhaglen ar rwydweithiau cymdeithasol.

Ffethiol

Fe ddarlledwyd amrywiaeth sylweddol o raglenni ffeithiol yn ystod y flwyddyn. Denodd **Gwreiddiau: Murray the Hump** (Telegtv) - hanes rhyfeddol Llewelyn Morris Humphreys, y gangster enwog o’r Unol Daleithiau a oedd yn fab i Gymry Cymraeg o Sir Drefaldwyn - werthfawrogiad uchel, er mai’r farn oedd nad oedd yr arbrawf o adrodd y stori ar draws dwy raglen hanner awr, yn lle un awr ddi-dor, yn llwyddiannus.

Darlledwyd cyfres o raglenni o dan y teitl **Pobol**, gan fwrw golwg ar fywydau rhai unigolion eithriadol ac adlewyrchu’r amrywiaeth oddi fewn i’n cymdeithas heddiw. O fewn y gainc yma cynigiodd **Seren Ddisglair** (Ceidiog) bortread o un o’r nifer fechan o Gymry Cymraeg sy’n gwneud bywoliaeth trwy berfformio fel artist draf, tra yn **Kris y Pagan** (Telegtv), dilynwyd pennaeth sect baganaidd. Roedd **Dyn Talaf y Byd** (Wild Dream) yn dangos dyn o Dwrci sy’n 8’ 3” o daldra ac wedi hawlio teitl y Guinness World Records ers 2009. Roedd y rhaglenni hyn yn ceisio cyflawni’r amcan ehangach o ddot o hyd i bynciau poblogaidd, llai traddodiadol, gan roi mwy o gyfle i S4C amlygu amrywiaeth y byd cyfoes. Yn anffodus, roedd y rhaglenni’n cyd-redeg â’r ymdrechion i gyflwyno elfennau mwy tabloid ar raglenni eraill. Rhaid cydnabod bod cydbwysedd ar draws y gwasanaeth wedi ei gollï a’i bod felly’n briodol i roi pwyslais wedyn ar ail sefydlu’r cydbwysedd hwnnw.

Fe wnaeth **Fy Chwaer a Fi** (Boom Pictures) bortreadu sefyllfa ddirindynol a thrawiadol dwy ferch a gollodd eu mamiaith oherwydd cyflwr niwrolegol a oedd wedi eu parlysu ac wedi dwyn eu gallu i siarad. Llwyddwyd i adnewyddu eu gallu i gyfathrebu, ond yn Saesneg yn unig – un gydag acen Americanaidd a’r llall gydag acen Awstralaidd - am nad oedd y peiriannau cyfathrebu electronig newydd yn cynnwys meddalwedd ar gyfer y Gymraeg. Roedd yn rhaglen wirioneddol gofiadwy, yn dibynnu llawer ar sefydlu perthynas o ffydd gyda’r teulu dros gyfnod estynedig. Cafodd ei gwerth ei chyd nabod trwy enwebiad ar gyfer gwobr RTS a thrwy ennill yn y New York Festivals Awards.

Yn **Un o Bob Tri** (Fflic), fe fu’r ddarlledwraig Beti George yn darganfod mwy am salwch alzheimer’s sydd wedi effeithio ei phartner, yr awdur a’r darlledwr 78 oed, David Parry-Jones, ers tair blynedd. Dyma raglen wnaeth ddatgelu cyfrolau am y cyflwr, a’i effaith ar berthnasau agos yn ogystal â’r claf, ac a fanteisiodd i’r eithaf ar onestrwydd y cyflwynydd a’i phartner. Roedd y rhaglen yn un o ddarllediadau mwyaf trawiadol y flwyddyn a chafwyd ymateb cryf dros ben iddi gan greu testun trafod cenedlaethol.

Yn y gyfres **O Nefyn i Nairobi** (le le), fe ddangoswyd plant o Ysgol Gynradd Nefyn yn cydweithio â phlant o slymiau yn Nairobi, Kenya ar gynllun cyfnewid unigryw a wnaeth arwain at berfformiad cerddorol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri 2012 a Charnifal Nefyn ym mis Mehefin.

Yn y gyfres **Mamwlad** (Tinopolis), roedd Ffion Hague yn adrodd hanes nifer o fenywod dylanwadol a llwyddiannus o Gymru gan gynnwys stori Laura Ashley, y fenyw fusnes fwyaf llwyddiannus o Gymru ac Arglwyddes Llanofar, Augusta Hall, a oedd yn ymgyrchu am hawliau i’r iaith Gymraeg ar ddechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe brofodd y gyfres yn boblogaidd ac yn gaffaeliad safonol i’r gwasanaeth. Fe ddenodd sgôr gwerthfawrogiad cryf o 83.

Darlledwyd nifer o raglenni dogfen arsylwad gan gynnwys cyfres ddogfen dair rhan, **Traed Lan** (Hay & GRJ), a oedd yn dilyn trefnwyr angladdau, **999: Y Glas** (Boom Pictures), a oedd yn cynnig darlun ecsgliwsif a gonest o waith Heddlu De Cymru yn Abertawe a’r cyffiniau, a chyfres o dair rhaglen, **Castell Howell** (P.O.P1), a oedd yn rhoi darlun o un o brif ddosbarthwyr bywd Cymru, sydd â’i bencadlys yn Cross Hands, Sir Gâr. Bu ymateb da iawn i’r tair cyfres, gyda **Traed Lan**, yn cael sgôr gwerthfawrogiad da o 78, rhaglen gyntaf

the Cape Town Opera Company, based on the life of national leader Nelson Mandela, from the Wales Millennium Centre, Cardiff. A choice of Welsh and English subtitles was offered since a high percentage of the opera was in languages other than Welsh. The Authority concluded that the opportunity to present the European première of the work provided sufficient editorial justification for the broadcast. Nevertheless, given that S4C is a Welsh language channel, it served as a catalyst to ensure that officers and producers remain aware of the requirements of the channel's Programme Language Guidelines.

In September, the highlights of **Gŵyl Gobaith 2012** (Avanti) were broadcast, from Deeside College/Glyndŵr University, Northop, which included performances by tenor Rhys Meirion, who walked hundreds of miles across Wales to raise money for the Wales Air Ambulance Service. This is another example of a broadcast that was also a successful community partnership.

Outside the classical world, S4C followed the quest by Decca Records and the talent agent Sioned James from Cardiff to find the next singing star from Wales in the new series, **Llais i Gymru** (Boom Pictures). The series followed four finalists on a challenging journey as they developed their skills in order to win a recording contract. The series generated a great deal of discussion and it may have included too much English. It was well appreciated however, achieving an AI score of 81.

In the original three-part series of the Christmas concert, **Carolau Gobaith** (Teledu Apollo), six stars from Wales, who had no experience of singing in public, volunteered to sing in the concert, and record a CD to raise money for good causes.

Entertainment

During the year, there was an increased emphasis on family entertainment, especially on Saturday evenings with familiar series such as **Noson Lawen** (Cwmni Da), which was well-received upon its return to a more traditional, less “televsual” format, while continuing to aim for contemporary production standards. The new-look **Siôn a Siân** (ITV) returned to the screen along with the old quiz format, **Jacpot** (Tinopolis). It was possibly a mistake to reintroduce both of these traditional series at the same time, certainly in the opinion of the S4C “People’s Panel”, and of the two, Siôn a Siân proved to be the most popular. On St David’s Day, a special show, **Noson**

yng Nghwmni Caryl (Boom Pictures), was broadcast, and showed the creative talents of Caryl Parry Jones as a singer, actress, poet, author and one of the biggest names in Welsh entertainment during the last 30 years. Three evenings later, the viewers had the opportunity to interact and respond to **Cân i Gymru 2012** (Avanti) live show through the use of a specific Twitter feed, #CIG2012. Viewers were also able to print out a score sheet from the website and use it to give marks to each song and vote by phone for their favourites. The response was good, with over 8,000 votes and a great deal of discussion on Twitter on the night. Following a debate that was initiated by the competition’s winner, Gai Toms, it was decided to introduce many important changes to the programme’s format for 2013, to bring it closer to the excitement of contemporary live music.

The series **Jonathan** (Avanti), which is aired on the eve of rugby internationals, continues to hit the nail on the head with its mix of irreverent fun, relaxed stars and feeding the nation’s passion for rugby. The programme knows its strength and works hard to stay fresh from one series to the next. It is one of the best programmes at drawing viewers who speak Welsh but do not watch S4C on a regular basis.

One of the major talking points of the year, in terms of the Welsh language media, was caused by the extended coverage of the **Young Farmers’ Eisteddfod** (Rondo a Telesgop) in November, specifically in the reaction to some of the sketches. On the one hand, some viewers were appalled by what they saw as racial stereotypes, while others strongly believed that what was portrayed here was innocent rural humour. S4C’s officers were of the view that the guidelines in terms of what is appropriate for broadcasting had been breached in at least one instance. Detailed discussions took place with the organisers as to how to ensure that national broadcast standards are respected in future, without undermining the enthusiasm and fun of this amateur competition which otherwise proved extremely popular, and which introduced the bright talents of young people from rural areas to the screen.

Lifestyle and Feature

Despite having been a relatively familiar face on S4C in the past, for the first time chef Bryn Williams was given his own series **Cegin Bryn** (Fflic), where he shared his cooking secrets and chose six seasonal ingredients. It was nice to hear a Vale of Clwyd accent on the channel and his expertise as a chef brought a distinct credibility to the series.

Prosiect: Rhys Ifans (Damage) revealed a sensitive, thoughtful and passionate side to the world-famous actor. This project was also an opportunity to offer additional content on digital platforms. The programme was enthusiastically mentioned on social networks.

Factual

A considerable variety of factual programmes was broadcast during the year. **Gwreiddiau: Murray the Hump** (Telegtv) - the remarkable story of Llewelyn Morris Humphreys, the famous gangster from the United States who was the son of Welsh speakers from Montgomeryshire – achieved high appreciation, although the view was that the experiment of telling a story across two half-hour programmes, rather than one continuous hour, was not successful.

A series of programmes was broadcast under the title **Pobol**, which looked at the lives of some extraordinary individuals, reflecting the diversity within our society today. Within this strand the documentary **Seren Ddisglair** (Ceidiog) offered a portrayal of one of a small number of Welsh speakers who make a living by performing as a drag artist, whilst **Pobol: Kris y Pagan** (Telegtv), portrayed the head of a pagan sect. **Dyn Talaf y Byd** (Wild Dream) showed a man from Turkey who is 8’ 3” tall, and has held the Guinness World Records title since 2009. These programmes sought to achieve the wider objective of finding popular, less traditional subjects, giving S4C more of an opportunity to highlight the diversity of the contemporary world. Unfortunately, the programmes coincided with efforts to introduce more tabloid elements on other programmes. It must be acknowledged that cross-service balance was lost and that it was therefore appropriate to place the emphasis thereafter on redressing that balance.

Fy Chwaer a Fi (Boom Pictures) portrayed the harrowing and striking situation of two girls who lost their mother tongue because of a neurological condition that had paralysed them and had taken away their ability to talk. Their ability to communicate was successfully renewed, but only in English – one with an American accent and the other with an Australian accent - since the new electronic communication devices did not include software for the Welsh language. The programme was truly memorable, and was very reliant on establishing a relationship of trust with the family over an extended period. Its value was recognised by an RTS nomination and a prize at the New York Festivals Awards.

In **Un o Bob Tri** (Fflic), broadcaster Beti George discovered more about alzheimer’s which has affected her partner, 78-year-old author and broadcaster David Parry-Jones, for three years. This programme revealed a huge amount about the condition, and its impact on close relatives as well as the patient, and it took full advantage of the honesty displayed by the presenter and her partner. The programme was one of the most notable broadcasts of the year and drew a very strong response, becoming a national topic of discussion.

In the series **O Nefyn i Nairobi** (le le), children from Ysgol Gynradd Nefyn were shown working in collaboration with children from the slums of Nairobi, Kenya, on a unique exchange programme which led to a musical performance at the Urdd Eisteddfod in Snowdonia in 2012 and the Nefyn Carnival in June.

In the series **Mamwlad** (Tinopolis), Ffion Hague told the story of many influential and successful women from Wales including the story of Laura Ashley, the most successful businesswoman from Wales, and Lady Llanover, Augusta Hall, who campaigned for Welsh language rights at



Castell Howell yn cael cynulleidfa o 62,000 o wylwyr, a’r gyfres **999: Y Glas** (Boom Pictures) yn cyrraedd 137,000 o bobl yn y DU dros y ddwy gyfres.

Testun annisgwyl i gyfres oedd **Tai Bach y Byd** (Cwmni Da), cyd-gynhyrchiad gyda’r BBC, a oedd yn arddangos toiledau mwyaf diddorol Tsieina, Siapan, Bangladesh, Sbaen, yr Seldiroedd a Lloegr, ond gan ddechrau gyda’r tŷ bach Cymreig yng ngwaelod yr ardd. Roedd yn sgript afaelgar ac roedd cyflwyno di-lol lfor ap Glyn yn gaffaeliad i’r gyfres, ac i’r fersiwn Saesneg a ddarlledwyd ar BBC Four.

I nodi pen-blwydd Rhyfel y Falklands, cynhyrchodd BBC Cymru raglen ddogfen o’r enw **Rhyfel y Falklands: Nôl i Faes y Frwydr** (BBC Cymru) a ddilynodd ddau filwr Cymreig wnaeth ddychwelyd i faes y gad am y tro cyntaf ers diwedd y rhyfel. Roedd hon yn ddogfen deimladwy, a gynhyrchwyd gefn-gefn, yn Gymraeg a Saesneg, gan brofi gallu S4C a BBC Cymru i gydweithio i ddarparu rhaglenni o safon uchel ar gyfer cynulleidfaoedd yn y ddwy iaith.

Newyddion

Cafwyd darpariaeth o raglenni newyddion o safon uchel gan BBC Cymru ar hyd y flwyddyn. Roedd y sgôr gwerthfawrogiad i’r rhaglen **Newyddion** (BBC) a’r bwletinau cysylltiedig yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer y math yma o raglen ar draws pob sianel. Er hyn, roedd yr Awdurdod yn ymwybodol ei bod yn bosibl nad oedd y ddarpariaeth yn apelio at yr holl wylwyr posibl. Dangosodd ymchwil yn ystod y flwyddyn fod y gynulleidfa’n gwerthfawrogi cyflwyniad proffesiynol y rhaglen, ac yn wir bod rhai gwylwyr yn teimlo y dylai’r iaith a ddefnyddir fod yn llai ffurfiol a chymhleth. Yn ystod y flwyddyn, bu’r Bwrdd Adolygu Newyddion, lle mae staff BBC Cymru ac S4C yn dod ynghyd, yn trafod cyfeiriad y gwasanaeth ac o ganlyniad daethpwyd i gytundeb ynglŷn â slot newydd a chyfeiriad golygyddol **Newyddion**, er mwyn ceisio sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion yr holl wylwyr posibl.

Materion Cyfoes

Mae’r patrwm sefydliedig o gyflwyno rhaglenni materion cyfoes o fwy nag un ffnhonnell, gyda chyfresi **Taro Naw** (BBC Cymru) y BBC yn cael eu dangos am yn ail gyda chyfresi ITV Cymru **Y Byd ar Bedwar** (ITV), a rhai rhaglenni o’r sector annibynnol, wedi cynnig amrywiaeth olygyddol ac arddull gwerthfawr. Mae yna le i drafod, o fewn gwasanaeth sydd o dan bwysau arian ac oriau, a yw’r cyfoeth yma’n gynaliadwy yn y tymor hir, neu a ddylid rhoi mwy o bwyslais, er enghraifft, ar raglenni fel **Pawb a’i Farn** (BBC Cymru) sy’n rhoi cyfle i wylwyr S4C ddod wyneb yn wyneb â’r rhai sydd mewn grym, neu efallai mwy o raglenni sy’n cynnwys elfennau o’r ddau arddull. Bydd y drafodaeth hon yn parhau.

Bu cryn drafod hefyd ynglŷn ag **CF99** (BBC Cymru) sy’n cael lle amlwg yn yr amserlen yn yr oriau brig. Mae’r Awdurdod yn credu ei bod yn bwysig rhoi sylw priodol i faterion gwleidyddol cyfredol. Efallai bod lle i ystyried a yw’r fformat yn cynnig digon o gyfle i adlewyrchu gwleidyddiaeth ar bob lefel ar draws Cymru.

Crefydd

Ceisiodd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn adlewyrchu agweddau ar grefydd draddodiadol yn ogystal â phortreadu amrywiaeth o destunau crefyddol ac athronyddol. Yn ogystal â darllediadau rheolaidd o **Dechrau Canu Dechrau Canmol** (Avanti) ar nos Sul, a ddenodd gynulleidfaoedd cystal ag erioed, fe ddangoswyd rhaglenni arbennig yn y gyfres gan gynnwys un yn portreadu’r cyflwynydd radio poblogaidd **Chris Needs**, a fu’n trafod

bywyd capel yng Nghwmafan, yr ardal lle’i magwyd. Fe ddenodd y rhaglen gynulleidfa uwch yn y Gorllewin, ac roedd dros draean o’r gynulleidfa i’r darllediad cyntaf yn ddi-Gymraeg.

Plant a Phobl Ifanc

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol i ganfod y farn gyhoeddus am y rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar S4C ynghyd ag effeithiau rhaglenni ar agwedd ac ymddygiad y gwylwyr ac yn ogystal y math o raglenni y byddai aelodau'r cyhoedd yn dymuno eu gweld ar S4C. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaethau priodol yn bodoli er mwyn galluogi gwylwyr i gwyno i S4C am raglenni'r sianel.

Mae dyletswyddau'r Awdurdod wedi eu nodi mewn statud yn Neddŷ Gyfathrebiadau 2003 a Deddfau Darlledu 1990 a 1996.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith yr Awdurdod a'r drefn lywodraethiant gorfforaethol yn y Datganiad Ariannol.

Aelodau'r Awdurdod

Mae aelodau'r Awdurdod yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dilyn ymgynghori gyda Swyddfa Cymru, Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth y BBC. Hysbysebïr swyddi ar yr Awdurdod yn gyhoeddus, ac mae'r penodiadau yn cael eu gwneud yn dilyn trefn penodiadau cyhoeddus.

Huw Jones
Tymor aelodaeth: 08.06.2011 - 07.06.2015

Cyn ganwr a darlledwr, un o sylfaenwyr Cwmni Recordiau Sain a rheolwr y cwmni hyd at 1981. Cyd-sefydlodd un o'r cwmnïau teledu annibynnol cyntaf, Teledu'r Tir Glas a'r cwmni adnoddau Barcud, ac roedd yn Gadeirydd y cwmni hwnnw rhwng 1981-1993. Roedd yn Brif Weithredwr S4C rhwng 1994 a 2005. Mae nawr yn Gadeirydd Portmeirion Cyf., yn aelod o Gyngor yr RSPB, yn Is-Gadeirydd Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn ac yn Ymddiriedolwr y Gymdeithas Deledu Frenhinol.

Dr Carol Bell
Tymor aelodaeth: 17.09.12 - 16.09.16

Ar ôl cychwyn ei gyrfa ym myd olew a nwy, datblygodd gyrfa Carol Bell ym myd bancio gyda JP Morgan a Chase Manhattan cyn symud o'r ddinas i gwblhau doethuriaeth am archaeoleg masnach hynafol yn Nwyrain ardal Môr y Canoldir yn 2000. Ers cwblhau ei doethuriaeth yn 2005 mae wedi datblygu ystod o ddiddordebau busnes ac elusenol ac mae'n aelod o nifer o fyrddau cwmnïau a sefydliadau.

John Davies
Tymor aelodaeth: 01.04.2010 – 31.03.2014

Mae'r Cynghorydd John Davies yn amaethwr ac yn gyn-arweinydd Cyngor Sir Benfro. Bu'n Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rhwng 2008 a 2012 ac mae'n Gadeirydd Bwrdd rheoli y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd.

Aled Eirug
Tymor aelodaeth: 17.09.12 – 16.09.16

Roedd Aled yn newyddiadurwr ac uwch-reolwr gyda HTV a'r BBC am 25 mlynedd, cyn iddo symud i faes gwleidyddiaeth gan wasanaethu fel cynghorydd cyfansoddiadol Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng 2006 a 2011. Mae hefyd wedi gwasanaethu fel ymgynghorydd arbennig i Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Mae'n gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru y Cyngor Prydeinig, ac yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Cymru Nominet.

Dr Glenda Jones
Tymor aelodaeth: 01.04.2010 – 31.03.2014

Fe weithiodd Glenda i'r BBC ac yn y sector annibynnol am 20 mlynedd. Am 10 mlynedd roedd yn Gynhyrchydd / Uwch Gynhyrchydd Pobol y Cwm ac yna'n Brif Gynorthwy-ydd Rheolwr BBC Cymru. Bu'n aelod o Bwyllgor Rheoli BAFTA Cymru am chwe blynedd - dwy ohonynt fel Cadeirydd y Pwyllgor. Mae'n Gadeirydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa Ryan Davies, yn Arolygydd Lleyg i Estyn ac yn Ymddiriedolwr yr Amgueddfa Genedlaethol.

Marian Wyn Jones
Tymor aelodaeth: 08.11.12 – 07.11.16

Roedd Marian yn Bennaeth canolfan y BBC yng Ngogledd Cymru am bymtheg mlynedd. Mae'n newyddiadurwraig brofiadol sydd wedi gweithio ar ystod eang o raglenni teledu a radio yng Nghymru ac ar rwydwaith y BBC. Mae'n gweithio bellach fel ymgynghorydd cyfryngau ac mae ganddi ystod o ddiddordebau busnes ac elusenol. Mae'r Gyfarwyddwr Anweithredol Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Celfyddydau Cymru, yn aelod o Gyngor Prifysgol Bangor, cyfarwyddwr Canolfan Gerdd William Mathias ac yn ymddiriedolwraig Ymddiriedolaeth Kyffin Williams.

Elan Closs Stephens
Tymor aelodaeth: 12.07.12 – 31.10.14

Yn rhinwedd ei swydd fel Ymddiriedolwr Cenedlaethol Cymru y BBC mae Elan yn aelod o Awdurdod S4C. Mae'n Athro Emeritws ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae wedi darparu arweiniad strategol i gyrff megis S4C fel Cadeirydd (1998-2006), Llywodraethwr y BFI (2001-2007) ac fel Cadeirydd yr Adroddiad ar y Celfyddydau yng Nghymru (Adroddiad Stephens 2006) ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n parhau ar Fwrdd Imax Waterloo ar ran y BFI. Mae'n Ymddiriedolwr Anweithredol o Fwrdd Perfformiad a Gwireddu Strategol Llywodraeth Cymru. Ganed Elan yn Nyffryn Nantlle, Gwynedd, a'i haddysgu yng Ngholeg Somerville, Rhydychen. Yn 2001, dyfarnwyd iddi CBE yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines am ei chyfraniad i ddarlledu a'r Gymraeg.

Rheon Tomos
Tymor aelodaeth: 20.11.2006 – 19.11.2014

Mae gan Rheon brofiad ariannol yn y sector gyhoeddus a phreifat. Sefydlodd ei fusnes ymgynghori ei hun yn 2005. Mae'n gyn-gadeirydd CIPFA yn Ne Cymru ac yn aelod o gyngor rhanbarthol y sefydliad. Mae'n Drysorydd ac Ymddiriedolwr Urdd Gobaiith Cymru ac yn aelod anweithredol o fwrdd Estyn ac yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Comisiynydd y Gymraeg.

The S4C Authority

The S4C Authority is an independent public body. It is responsible for the provision of Welsh language television programme services. The Authority is accountable for S4C's output and the proper management of the channel.

Key responsibilities of the Authority include:

- to oversee, approve and scrutinise the proper management of S4C

- to ensure that S4C provides S4C's television services

- to operate as a public body

- to act as a regulator on certain matters

- to prepare Annual Reports and Accounts.

It is the responsibility of the Chief Executive, officers and staff of S4C to manage and maintain S4C on a day-to-day basis. This responsibility includes providing S4C's television services. The Authority does not participate in day-to-day decisions. In particular, the Authority is not involved in any commissioning or editorial decision. This practice has existed since 1982 and continues to maintain the independence of the Authority. It ensures that it remains at arm's length from decisions made by officers - especially in the case of programme content.

The Authority has a statutory duty to ascertain the state of public opinion concerning programmes broadcast on S4C, any effects of such programmes on the attitudes or behaviour of viewers as well as the types of programmes that members of the public would like to be broadcast on S4C. The Authority is also responsible for ensuring that relevant provisions are in place to enable viewers to complain to S4C about its programming.

The Authority's statutory duties are placed upon it by the Communications Act 2003 and the Broadcasting Acts of 1990 and 1996.

More information about the Authority's work and its corporate governance arrangements is included in the Governance Report in the Statement of Accounts.

Members of the Authority

Members of the Authority are appointed by the Secretary for State for Culture, Media and Sport following consultation with the Wales Office, Welsh Government and the BBC Trust. Posts on the Authority are advertised publicly and appointments are made following a public appointments procedure.

Huw Jones
Term of appointment: 08.06.2011 - 07.06.2015

Former singer and broadcaster; one of the founders of Sain Record Company and the company's managing director until 1981. Co-founder of Teledu'r Tir Glas, one of the earliest Welsh independent production companies and of the facilities company Barcud, which he chaired between 1981 and 1993. He was S4C's Chief Executive between 1994 and 2005. He is now Chair of Portmeirion Cyf, a member of the RSPB Council, Vice Chair of the Nant Gwrtheyrn Language Learning Centre and a Trustee of the Royal Television Society.

Dr Carol Bell
Term of appointment: 17.09.12 - 16.09.16

Having started in the oil and gas industry, Carol Bell's career developed in the world of banking with JP Morgan and Chase Manhattan before moving from the city to complete a doctorate in the Archaeology of ancient trade networks in the Eastern Mediterranean in 2000. Since completing her doctorate in 2005 she has developed a range of business and charitable interests and is a board member of a number of companies and organisations.

John Davies
Term of appointment: 01.04.2010 – 31.03.2014

Councillor John Davies is a farmer and former Leader of Pembrokeshire County Council. He was Leader of the Welsh Local Government Association (WLGA) between 2008 and 2012 and is Chairman of the Royal Welsh Show's management board.

Aled Eirug
Term of appointment: 17.09.12 – 16.09.16

Aled was a journalist and senior manager with HTV and the BBC for 25 years, before he moved into the world of politics, serving as constitutional advisor to the Presiding Officer of the National Assembly of Wales between 2006 and 2011. He has also served as a special advisor to the Welsh Government's Minister for Education and Skills. He is Chair of the British Council Wales Advisory Committee, and a member of the Nominet Wales Advisory Group.

Dr Glenda Jones
Term of appointment: 01.04.2010 – 31.03.2014

Glenda worked for the BBC and in the independent sector for 20 years. She was Producer / Senior Producer of Pobol y Cwm for 10 years, and then Chief Assistant to the Controller of BBC Wales. She was a member of BAFTA Cymru's Management Committee for six years – two of those years as Chair of the Committee. She is Chair of the Ryan Davies Memorial Fund, an Estyn Lay Inspector and a Trustee of the National Museum Wales.

Marian Wyn Jones
Term of appointment: 08.11.12 – 07.11.16

Marian was head of the BBC's centre in North Wales for fifteen years. She is an experienced journalist who has worked on a wide range of television and radio programmes in Wales and on the BBC network. She now works as a media consultant and has a range of business and charitable interests. She is a Non-Executive Director of Betsi Cadwaladr Health Board, a member of Snowdonia National Park Authority and the Arts Council of Wales, a member of the Council of Bangor University, a director of Canolfan Gerdd William Mathias and a trustee of the Kyffin Williams Trust.

Elan Closs Stephens
Term of appointment: 12.07.12 – 31.10.14

Elan is a member of the S4C Authority by virtue of her position as the BBC's National Trustee for Wales. She is Emeritus Professor at Aberystwyth University. She has provided strategic leadership to cultural bodies such as Chair of the S4C Authority (1998-2006), Governor of the BFI (2001-2007) and as Chair of the Report on the Arts in Wales (Stephens Report 2006) for the Welsh Assembly Government. She remains on the Board of the Imax Waterloo on behalf of the BFI. She is a Non-Executive Director of the Welsh Government's Strategic Delivery and Performance Board. Elan was born in the Nantlle Valley, Gwynedd, and was educated at Somerville College, Oxford. In 2001, she was awarded a CBE in the Queen's Birthday Honours for services to broadcasting and the Welsh language.

Rheon Tomos
Term of appointment: 20.11.2006 – 19.11.2014

Rheon is experienced in financial matters in the public and private sectors. He established his own consultancy business in 2005. He is former Chair of CIPFA in South Wales and a member of its regional council. He is Treasurer and a Trustee of Urdd Gobaiith Cymru (Wales League of Youth) and a non-executive member of the board of Estyn and a member of the Welsh Language Commissioner's Audit and Risk Management Committee.

Nodir presenoldeb Aelodau'r Awdurdod yng nghyfarfodydd misol yr Awdurdod yn y tabl isod.

	Cyfarfod Busnes yr Awdurdod	Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg	Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth	Pwyllgor Cynnwys	Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth	Y Bwrdd Masnachol
Nifer o gyfarfodydd	11	4	1	5	2	10
Huw Jones	11	4	1	5	2	7
Rheon Tomos	10	4	-	-	2	-
Winston Roddick QC	5/7	2/3	-	-	-	-
Bill Davies	6/7	1	-	-	2	-
Cenwyn Edwards	7/7	1	-	4/4	2	-
Dyfrig Jones	5	0/1	-	2	-	6
John Davies	9	2/3	1	4	-	8
Glenda Jones	10	1	1	5	2	-
Elan Closs Stephens	5/5	0/1	-	-	-	-
Dr Carol Bell	2/3	1/1	1	-	-	1/1
Aled Eirug	3/3	-	-	1/1	-	-
Marian Wyn Jones	2/2	-	1	-	-	-

Mae'r Cadeirydd yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau'r Awdurdod a'r Bwrdd Masnachol fel sylwedydd.

Strwythur gwaith yr Awdurdod

Pwyllgorau Awdurdod S4C

Mae gan Awdurdod S4C bedwar pwyllgor sy'n goruchwyllo gwahanol agweddau o waith S4C, ac yn ogystal fwrdd cyfarwyddwyr ar gyfer cwmnïau masnachol S4C. Mae'r pwyllgorau'n adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Awdurdod. Yr Awdurdod sy'n cymeradwyo argymhellion y pwyllgorau. Mae gan Gadeirydd yr Awdurdod yr hawl i fynychu cyfarfodydd y pwyllgorau fel sylwedydd.

Pwyllgor Cynnwys

Mae'r Pwyllgor Cynnwys yn gyfrifol am oruchwyllo a monitro perfformiad cynnwys rhaglenni a gwasanaethau S4C. Hwn ydi'r pwyllgor sy'n trafod arlwy rhaglenni S4C ac sy'n ceisio sicrhau bod arlwy'r sianel yn diwallu anghenion y gynulleidfa.

Aelodau'r pwyllgor

Cenwyn Edwards (Cadeirydd y Pwyllgor) (tan 15.07.2012)
Aled Eirug (Cadeirydd y Pwyllgor) (o 11.10.2012)
John Davies
Dyfrig Jones (tan 19.04.13)
Glenda Jones

Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn gyfrifol am oruchwyllo gwaith archwilio mewnol ac allanol S4C, yn ogystal â gofalaeth am fonitro rheoli risg o fewn S4C. Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am graffu'r Datganiad Ariannol drafft ac adrodd arno i'r Awdurdod cyfan. Yn dilyn argymhellion adroddiad Syr Jon Shortridge mae gofalaeth am faterion yn ymwneud â "gwerth am arian" (sy'n cael ei alw'n VFM) hefyd yn rhan o ddyletswyddau'r pwyllgor.

Aelodau'r pwyllgor

Rheon Tomos (Cadeirydd y Pwyllgor)
Winston Roddick (tan 31.08.2012)
John Davies (tan 10.10.2012)
Carol Bell (o 11.10.2012)
Dyfrig Jones (o 11.10.2012 tan 19.04.13)
Elan Closs Stephens (o 11.10.2012)

Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth yn gyfrifol am oruchwyllo systemau personél S4C. Mae hyn yn cynnwys ystyried cyflogau a thelerau ac amodau gwaith eraill staff S4C, ystyried anghenion hyfforddi a datblygu staff, safonau ymddygiad a disgyblaeth, cyfleoedd cyfartal a monitro bod y systemau perthnasol yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon o fewn S4C.

Aelodau'r pwyllgor

Bill Davies (Cadeirydd y Pwyllgor) (tan 15.07.2012)
Marian Wyn Jones (Cadeirydd y Pwyllgor o 07.11.2012)
Rheon Tomos
Cenwyn Edwards (tan 15.07.2012)
Glenda Jones (tan 10.10.2012)
Aled Eirug (o 11.10.2012)
Elan Closs Stephens (o 11.10.2012)

Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth

Mae'r Pwyllgor Cwynion a Chydnabyddiaeth yn gyfrifol am oruchwyllo systemau cwynion S4C ac i fonitro eu bod nhw'n gweithio'n effeithlon. Mae'r pwyllgor hefyd yn ystyried materion cydymffurfiaeth rhaglenni S4C. Yn ogystal â hyn, mae gan y pwyllgor ddyletswyddau o fewn prosesau S4C ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth sy'n cael eu gwneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Aelodau'r pwyllgor

Winston Roddick QC (Cadeirydd y Pwyllgor tan 31.08.2012)
John Davies (Cadeirydd y Pwyllgor o 11.10.2012)
Glenda Jones
Bill Davies (tan 15.07.2012)
Carol Bell (o 11.10.2012)
Marian Wyn Jones (o 07.11.2012)

Bwrdd Is-gwmnïau Masnachol S4C

Mae Bwrdd Is-gwmnïau Masnachol S4C yn gyfrifol am oruchwyllo gweithgareddau masnachol y sianel. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthiant hysbysebion, buddsoddiadau mewn cyd-gynhyrchiadau, y gronfa ddigidol a datblygu strategaeth fasnachol S4C ar gyfer y dyfodol.

Aelodau'r Awdurdod sy'n aelodau'r Bwrdd Masnachol

John Davies (Cadeirydd y Bwrdd tan 10.10.2012 ac yn parhau fel aelod o'r Bwrdd)
Carol Bell (Cadeirydd y Bwrdd o 11.10.2012)
Dyfrig Jones (tan 19.04.13)

Cyfarwyddwyr eraill

Mae Ian Jones, Elin Morris a Kathryn Morris hefyd yn gweithredu fel cyfarwyddwyr is-gwmnïau masnachol S4C, ynghyd â David Sanders a Gwyn Roberts sy'n gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol. Daeth tymor Clive Jones fel cyfarwyddwr anweithredol annibynnol i ben ar 31.12.12 a phenodwyd Gwyn Roberts ar 17.04.13.

The table below notes the number of meetings attended during a member's term of membership of the Authority and its committees.

	Authority Business Meeting	Audit & Risk Management Committee	Complaints & Compliance Committee	Content Committee	Personnel & Remuneration Committee	The Commercial Board
Number of meetings	11	4	1	5	2	10
Huw Jones	11	4	1	5	2	7
Rheon Tomos	10	4	-	-	2	-
Winston Roddick QC	5/7	2/3	-	-	-	-
Bill Davies	6/7	1	-	-	2	-
Cenwyn Edwards	7/7	1	-	4/4	2	-
Dyfrig Jones	5	0/1	-	2	-	6
John Davies	9	2/3	1	4	-	8
Glenda Jones	10	1	1	5	2	-
Elan Closs Stephens	5/5	0/1	-	-	-	-
Dr Carol Bell	2/3	1/1	1	-	-	1/1
Aled Eirug	3/3	-	-	1/1	-	-
Marian Wyn Jones	2/2	-	1	-	-	-

The Chairman of the Authority attends meetings of the Authority's committees and the Commercial Board as an observer.

The Authority's work structure

S4C Authority Committees

The S4C Authority has four committees overseeing various aspects of S4C's activities, and also a board of directors for S4C's commercial companies. The committees report back to the Authority on a regular basis and the Authority approves the committees' recommendations. The Chairman of the Authority has the right to attend committee meetings as an observer.

Content Committee

The Content Committee's responsibilities include overseeing and monitoring the performance of S4C's programmes and services. This is the committee that discusses S4C's programme provision and seeks to ensure that the Channel's offering meets the needs of the audience.

Members of the committee

Cenwyn Edwards (Chair of the Committee) (until 15.07.2012)
Aled Eirug (Chair of the Committee) (from 11.10.2012)
John Davies
Dyfrig Jones (until 19.04.13)
Glenda Jones

Audit and Risk Management Committee

The Audit and Risk Management Committee is responsible for overseeing the internal and external audit activities of S4C as well as having responsibility for monitoring risk management within S4C. The committee is also responsible for scrutinising the draft Statement of Accounts and reporting back to the full Authority. Following the recommendations in Sir Jon Shortridge's report, the committee's responsibilities now include matters relating to Value for Money.

Members of the committee

Rheon Tomos (Chair of the Committee)
Winston Roddick (until 31.08.2012)
John Davies (until 10.10.2012)
Carol Bell (from 11.10.2012)
Dyfrig Jones (from 11.10.2012 until 19.04.13)
Elan Closs Stephens (from 11.10.2012)

Personnel and Remuneration Committee

The Personnel and Remuneration Committee is responsible for overseeing S4C's personnel systems. This includes considering salaries and other terms and conditions relating to S4C staff, staff training and development needs, disciplinary and behavioural standards, equality of opportunity and monitoring that the relevant systems are working effectively and efficiently within S4C.

Members of the committee

Bill Davies (Chair of the Committee) (until 15.07.2012)
Marian Wyn Jones (Chair of the Committee from 07.11.2012)
Rheon Tomos
Cenwyn Edwards (until 15.07.2012)
Glenda Jones (until 10.10.2012)
Aled Eirug (from 11.10.2012)
Elan Closs Stephens (from 11.10.2012)

Complaints and Compliance Committee

The Complaints and Compliance Committee is responsible for overseeing S4C's complaints systems and for monitoring the systems to ensure that they work efficiently. The committee also considers compliance issues relating to programmes on S4C. The committee also has responsibilities within S4C processes for responding to requests for information made under the Freedom of Information Act.

Members of the committee

Winston Roddick QC (Chair of the Committee until 31.08.2012)
John Davies (Chair of the Committee from 11.10.2012)
Glenda Jones
Bill Davies (until 15.07.2012)
Carol Bell (from 11.10.2012)
Marian Wyn Jones (from 07.11.2012)

S4C's Commercial Board

S4C's Commercial Board is responsible for overseeing the channel's commercial activities. These include airtime sales, investments in co-productions, the digital fund and the development of S4C's future commercial strategy.

Members of the Authority who are members of the Commercial Board

John Davies (Chair of the Board until 10.10.2012 and remains as a member of the Board)
Carol Bell (Chair of the Board from 11.10.2012)
Dyfrig Jones (until 19.04.13)

Other Directors

Ian Jones, Elin Morris and Kathryn Morris are also directors of S4C's commercial subsidiaries. David Sanders and Gwyn Roberts are independent non-executive directors. Clive Jones' term as an independent non-executive director ended on 31.12.12 and Gwyn Roberts was appointed on 17.04.13.

Tîm Rheoli S4C

Ian Jones
Prif Weithredwr

Roedd Ian, a ddaw'n wreiddiol o Dreforys, Abertawe, yn rhan o'r tîm lansiodd S4C ym 1982. Gadawodd y Sianel i weithio yn adran adloniant rhwydwaith ITV ac fel cynhyrchydd annibynnol, cyn ail-ymuno ag S4C fel Cyfarwyddwr Busnes, S4C Rhyngwladol a Chyd-gynyrchiadau. Bu'n Gyfarwyddwr i Scottish Television Enterprises, ITEL a Granada International ac yn Gadeirydd Cymdeithas Dosbarthu Diwydiant Teledu Prydain (British Television Distribution Industry Association). Rhwng 2004 a 2007 roedd yn Llywydd National Geographic Television International, cyn dod yn Rheolwr Gyfarwyddwr i'r Target Entertainment Group. Fe'i penodwyd yn Rheolwr Gyfarwyddwr, Dosbarthu Cynnwys a Datblygiad Masnachol, cwmni A+E Television Networks yn 2010 cyn iddo gael ei benodi'n Brif Weithredwr S4C.

Dafydd Rhys
Cyfarwyddwr Cynnwys

Dechreuodd Dafydd weithio gyda HTV ym maes plant ac adloniant cyn sefydlu cwmni annibynnol Criw Byw a gynhyrchodd y rhaglen flaengar Fideo 9. Yn ystod y nawdegau bu'n gweithio yn S4C fel Golygydd Comisiynu a Chyfarwyddwr Darlledu. Yn 1998 fe ymunodd â chwmini Antena cyn gadael yn 2000 i sefydlu cwmni P.O.P1., rhan o grŵp Tinopolis yn Llanelli. Ail ymunodd Dafydd ag S4C ym mis Mawrth 2012.

Garffild Lloyd Lewis
Cyfarwyddwr Cyfathrebu,
Marchnata a Phartneriaethau

Fe dreuliodd Garffild 25 mlynedd yn gweithio i Adran Newyddion BBC Cymru. Cafodd brofiad helaeth yn gweithio fel cynhyrchydd a rheolwr a bu hefyd yn gyfrifol am nifer o brosiectau hyfforddi. Sefydlodd ei gwmni ei hun, Trawsgyfrwng Cyf., cyn ymuno ag S4C fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu yn 2009.

Kathryn Morris
Cyfarwyddwr Cyllid

Fe raddiodd Kathryn mewn Economeg a Chyfrifeg ym Mhrifysgol Caerdydd cyn dod yn gyfrifydd siartredig. Fe ymunodd ag S4C yn 1984 a chafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cyllid yn 1991.

Elin Morris
Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol

Ar ôl graddio yn y Gyfraith o Goleg St Anne, Rhydychen fe ddatblygodd gyrfa Elin fel cyfreithiwr. Fe fu'n bartner yn Adran Gorfforaethol Geldards (Cyfreithwyr) am 11 mlynedd. Cafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009.

Ceir manylion am gydnabyddiaeth i aelodau'r Tîm Rheoli yn Nodyn 4 y Datganiad Ariannol.

S4C Management Team

Ian Jones
Chief Executive

Ian, who comes originally from Morriston, Swansea, was part of the team that launched S4C in 1982. He left the channel to work in ITV's network entertainment department and as an independent producer, before re-joining S4C as the Director of Business, S4C International and Co-productions. He has been a Director for Scottish Television Enterprises, ITEL and Granada International and Chairman of the British Television Distribution Industry Association. Between 2004 and 2007 he was the President of National Geographic Television International, before becoming the Managing Director of Target Entertainment Group. He was appointed Managing Director, Content Distribution and Commercial Development, A + E Television Networks in 2010 before being appointed Chief Executive of S4C.

Dafydd Rhys
Director of Content

Dafydd started his career with HTV working on children's and entertainment programmes before establishing Criw Byw, the independent production company that produced the innovative programme, Fideo Naw. During the nineties he worked in S4C as a Commissioning Editor and Director of Broadcasting. In 1998 he joined Antena before leaving in 2000 to set up P.O.P1, part of the Tinopolis group in Llanelli. Dafydd re-joined S4C in March 2012.

Garffild Lloyd Lewis
Director of Communications,
Marketing and Partnerships

Garffild worked for BBC Wales' News Department for 25 years. He gained valuable experience as a producer and manager and was also responsible for various training projects. He established his own company Trawsgyfrwng Cyf. before joining S4C as its Director of Communications in 2009.

Kathryn Morris
Director of Finance

Kathryn graduated from Cardiff University with a degree in Economics and Accountancy before qualifying as a chartered accountant. She joined S4C in 1984 and was appointed Finance Director in 1991.

Elin Morris
Director of Corporate and Commercial Policy

After graduating from St. Anne's College, Oxford with a degree in Law, Elin developed a career as a solicitor. She was a partner in the Corporate Department of Geldards Law Firm for 11 years. She was appointed S4C's Director of Corporate and Commercial Policy in 2009.

Details of the remuneration of the management team can be found in Note 4 of the Statement of Accounts.



**Datganiad Ariannol
2012**

Cyflwynir Datganiad Ariannol S4C i'r Senedd yn sgîl paragraff 13(2)
i Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (C.42)

**Statement of Accounts
2012**

The Statement of Accounts for S4C is presented to Parliament pursuant
to paragraph 13(2) to Schedule 6 of the Broadcasting Act 1990 (C.42)

Adroddiad yr Awdurdod am y flwyddyn a derfynodd 31 Rhagfyr 2012

Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Datganiad Ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2012, ynghyd â nodiadau esboniadol, Adroddiad ar Lywodraethiant S4C gan yr Awdurdod a gwaith y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Cyflwynir Datganiad Ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a derfynodd ar 31 Rhagfyr 2012 yn unol ag Atodlen 1 (1)(b) y Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r Awdurdod ym mis Mai 2007.

Mae'r Awdurdod yn cyflwyno asesiad cytbwys o sefyllfa a rhagolygon S4C yn yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyflwyno yn ôl gofynion statudol.

Prif weithgareddau

Mae S4C yn gweithredu o dan Adrannau 203 hyd 207 (yn gynwysiedig) ac Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Adran 204 yn darparu bod yr Awdurdod yn gweithredu i ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu o safon uchel gyda'r bwriad iddynt fod ar gael yn gyfan gwbl neu yn bennaf i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth gyflawni'r swyddogaeth honno, rhaid i'r Awdurdod barhau i ddarledu'r gwasanaeth digidol a adnabyddir mewn deddfwriaeth fel S4C digidol (a gall ddarparu'r gwasanaeth darledu teledu analog a adnabyddir fel Sianel Pedwar neu S4C).

Strwythur grŵp

Mae is-baragraffau (2) a (3) Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Darledu 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 206 (6) Deddf Cyfathrebiadau 2003) yn caniatáu i'r Awdurdod, i'r graddau ei bod yn ymddangos iddynt bod gwneud hynny'n atodol neu'n arweiniol i gyflawni eu swyddogaeth, i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, trwy gwmnïau S4C gan ddefnyddio cyllid masnachol yn unig. Yn ogystal, mae'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn caniatáu i'r Awdurdod barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan cynnwys gweithgareddau masnachol, a oedd yn cael eu cyflawni yn syth cyn dechreuad Adran 206, naill ai eu hunain neu drwy un o gwmnïau S4C. O fewn y Datganiad Ariannol cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel yr Awdurdod. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

Cyllid

Ym mis Hydref 2010, yn dilyn yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon at S4C yn cadarnhau toriad o 24.4% yng nghyllid S4C dros gyfnod 4 blynedd yr adolygiad gwariant, ac yn cadarnhau'r symiau fyddai'n cael eu darparu i Awdurdod S4C yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, o 2013/14, bydd cyllid S4C yn cael ei ddarparu trwy gyfuniad o barhad o gyllid gan y trysorlys, refeniw masnachol (a gaiff ei greu gan S4C) a Ffi'r Drwydded yn unol â'r Cytundeb Fframwaith dyddiedig Medi 2011 rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ymddiriedolaeth y BBC a'r Cytundeb Gweithredu rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C.

Er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i weithredu'r newidiadau i gyllid S4C, diweddarwyd fformiwla cyllido blaenorol Awdurdod S4C, sef Adran 61 Deddf Darledu 1990 ym mis Rhagfyr 2011 gan Adran 31 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. O dan y ddarpariaeth ddiwygiedig hon, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon bellach ddyletswydd statudol i sicrhau yn 2012 a phob blwyddyn ddilynol y bydd Awdurdod S4C yn cael ei dalu swm y mae ef/hi yn ystyried ei fod yn ddigonol ar gyfer y gost i'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn honno sy'n gysylltiedig â (a) darparu gwasanaethau cyhoeddus yr Awdurdod (yn unol ag Adran 207 Deddf Cyfathrebiadau 2003); a (b) threfnu darledu neu ddosbarthu'r gwasanaethau hynny. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyflawni'r ddyletswydd hon drwy wneud taliadau ei hunan neu drwy ddod i gytundeb gyda pherson arall i'r person hwnnw wneud hynny (neu'r ddau). Rhaid cadw'r arian hwn yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a rhaid ei ddefnyddio yn unig er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus yr Awdurdod. Ni chaniateir cymhorthdal o Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer unrhyw is-gwmni S4C.

Ym mis Rhagfyr 2012 cyhoeddwyd gostyngiadau pellach i'r cyllid a fydd yn cael ei ddyrannu i'r Awdurdod gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer blynyddoedd ariannol 2013-14 a 2014-15. Yn 2013-14 bydd gostyngiad pellach o 1% yn cael ei gymhwyso i gyllid S4C gan y trysorlys yn ogystal â gostyngiad pellach o 2% yn 2014-15.

Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a throsiant y Gronfa Gyffredinol
Roedd y cyfanswm a dderbyniwyd oddi wrth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystod y flwyddyn yn £83.000m (2011 - £90.000m). Defnyddiwyd yr incwm hwn i gyllido costau comisiynu a phrynu rhaglenni Cymraeg, costau darledu S4C, gwariant ar asedau sefydlog a gorbenion. Mae balans yr incwm hwn, ar ôl cost darledu rhaglenni a chostau gweithredu a gweinyddu, felly yn cynrychioli'r prif fodd o gyllido asedau net S4C ac yn cael ei drin fel incwm gohiriedig yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Crëwyd trosiant y Gronfa Gyffredinol trwy werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi. Yn 2012, roedd cyfanswm y trosiant hwn yn £3.285m (2011 - £3.001m). Rhoddir manylion pellach yn nodyn 2 i'r Datganiad Ariannol.

Gwariant

Mae'r costau a roddwyd yr erbyn y cyfrif elw a cholled yn ystod y flwyddyn yn cynnwys £83.007m (2011 - £93.858m) ar gyfer costau'r gwasanaeth rhaglenni a chostau darledu a dosbarthu, £1.277m ar gyfer costau uniongyrchol eraill (2011 -£1.436m) a £3.620m (2011 - £3.853m) ar gyfer costau gweithredu a gweinyddu. Roedd costau'r rhaglenni a ddarledwyd yn cynnwys £67.900m (2011 - £77.122m) ar gyfer costau rhaglenni a gomisiynwyd neu a brynwyd gan gyflenwyr rhaglenni. Cyfeiria costau darledu a dosbarthu at gostau trosglwyddyddion a llinellau cyfathrebu a ddarperir gan gontractwyr. Roedd y gweddill yn gostau uniongyrchol comisiynu a chyflwyno rhaglenni, costau gweithredol gwasanaethau mynediad S4C ynghyd â chostau darledu perthnasol eraill y gwasanaeth rhaglenni megis costau marchnata a chostau ymchwil cynulleidfâ.

Mae costau uniongyrchol eraill yn cynnwys blaendaliadau cyllido cydgyncyriadau i drydydd partïon, rhaniad elw a oedd yn daladwy i drydydd partïon mewn perthynas â gwerthu rhaglenni, comisiwn asiantaeth a chostau darledu sy'n ymwneud â hysbysebion a chostau cludo yn ymwneud â S4C2 ar blatfformau digidol daearol a lloeren. Ceir manylion pellach am gostau gweithredu a gweinyddu yr Awdurdod yn nodyn 3 i'r Datganiad Ariannol.

Polisi talu

Mae'n bolisi gan yr Awdurdod i gytuno ar amodau a thelerau addas ar gyfer ei drafodion â chyflenwyr ac, yn amodol ar eu cydymffurfriad, gwneir taliadau yn unol â'r telerau hyn. Yn arferol yn 2012, talwyd 94% (2011 – 92%) o gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod.

Report of the Authority for the year ended 31 December 2012

Foreword

This report sets out the Authority’s Statement of Accounts for 2012, together with explanatory notes, a report on the Authority’s Governance of S4C and the work of the Audit and Risk Management Committee.

The Statement of Accounts of the Authority for the year ended 31 December 2012 is presented in accordance with Schedule 1(1)(b) of the Accounts Direction issued by the Secretary of State for Culture, Media and Sport to the Authority in May 2007.

The Authority presents a balanced assessment of S4C’s position and prospects in the information required to be presented by statutory requirements.

Principal activities

S4C operates under Sections 203 to 207 (inclusive) and Schedule 12 of the Communications Act 2003. Section 204 provides that the Authority shall have the function of providing television programme services of high quality with a view to their being available for reception wholly or mainly by members of the public in Wales. In carrying out that function, the Authority must continue to broadcast the service provided in digital form referred to in legislation as S4C digital (and may provide the analogue television broadcast service known as Sianel Pedwar Cymru or S4C).

Group structure

Sub-paragraphs (2) and (3) of Paragraph 1 of Schedule 6 to the Broadcasting Act 1990 (as amended by Section 206 (6) of the Communications Act 2003) entitles the Authority, to the extent that it appears to them incidental or conducive to the carrying out of their functions to do so, to carry out activities, including commercial activities, through S4C companies using commercial revenues only. Likewise, the transitional provisions contained in paragraph 27 of Schedule 18 to the Communications Act 2003 permit the Authority to continue carrying on any activities, including commercial activities, which were being carried on immediately before the commencement of Section 206, either itself or through an S4C company. Within this consolidated Statement of Accounts, the Public Service Fund is referred to as S4C and the total of both public service and commercial activities is referred to as the Authority. The assets of the Authority that are not comprised in the Public Service Fund are referred to as the General Fund.

Funding

In October 2010, following the Comprehensive Spending Review, the Secretary of State for Culture, Media and Sport wrote to S4C confirming a 24.4% cut to S4C’s funding over the 4 years of the spending review period, and confirming the amounts that would be provided to the S4C Authority during this period. In addition, from 2013/14, S4C’s funding will be provided by a combination of continued exchequer funding, commercial revenue (generated by S4C) and the Licence Fee in accordance with the Framework Agreement of September 2011 between the Secretary of State for Culture, Media and Sport and the BBC Trust and the Operating Agreement between the BBC Trust and the S4C Authority.

To enable the Secretary of State for Culture, Media and Sport to implement the changes to the funding of S4C, the S4C Authority’s previous funding formula as set out in Section 61 of the Broadcasting Act 1990 was amended in December 2011 by Section 31 of the Public Bodies Act 2011. Under this amended provision the Secretary of State for Culture, Media and Sport now has a statutory duty to secure that in 2012 and each subsequent year the S4C Authority is paid an amount which s/he considers sufficient to cover the cost to the Authority during that year of (a) providing the Authority’s public services (within the meaning of Section 207 of the Communications Act 2003); and (b) arranging for the broadcasting or distribution of those services. The Secretary of State for Culture, Media and Sport may discharge this duty by making payments her/himself or entering into an agreement with another person for that person to do so (or both). Such funding must be held in the Public Service Fund and be applied only for the purposes of providing the Authority’s public services. No subsidy is permitted from the Public Service Fund for any S4C subsidiary.

In December 2012 further reductions were announced to the funding allocated to the Authority from DCMS for the 2013-14 and 2014-15 financial years. In 2013-14 a further reduction of 1% is to be applied to S4C’s exchequer funding in addition to a further 2% reduction in 2014-15.

Public Service Fund income and General Fund turnover

Amounts receivable from the DCMS during the year totalled £83.000m (2011 –£90.000m). This income was used to finance the cost of commissioning and acquiring Welsh language programmes, the transmission costs of S4C, expenditure on fixed assets and overheads. The balance of this income, after the cost of programme transmission and operational and administrative expenses, therefore represents the principal means of financing the net assets of S4C and is treated as deferred income in the Public Service Fund. General Fund turnover was generated by sales of airtime, rights in television programmes, sponsorship, merchandising, publishing and investment activities. It totalled £3.285m in 2012 (2011 - £3.001m). Further details are given in note 2 to the Statement of Accounts.

Expenditure

Costs charged to the profit and loss account during the year include £83.007m (2011 - £93.858m) for the cost of the programme service and transmission and distribution costs, £1.277m for other direct costs (2011 - £1.436m) and £3.620m (2011 - £3.853m) for operational and administrative expenses. The costs of programmes transmitted included £67.900m (2011 –£77.122m) in respect of the cost of programmes commissioned or acquired from programme suppliers. Transmission and distribution costs are incurred in respect of transmitters and communication lines provided by contractors. The balance comprised the direct costs of programme commissioning and presentation, the operational costs of access services provided by S4C and other related costs of the programme service such as marketing costs and audience research.

Other direct costs include third party co-production funding advances, profit participation due to third parties in respect of programme sales, agency commission and playout costs relating to advertisements and carriage costs relating to S4C2 on the digital, terrestrial and satellite platforms. Further details of the operational and administrative costs of the Authority are given in note 3 to the Statement of Accounts.

Payment policy

It is the Authority’s policy to agree appropriate terms and conditions for its transactions with suppliers, and subject to their compliance, to make payments in accordance with these terms. Typically in 2012, 94% (2011 – 92%) of supplier balances were paid within 30 days.

Oriau a ddarledwyd a chyfartaledd cost yr awr

Yn ystod y flwyddyn darlledodd S4C gyfanswm o 6,629 awr o raglenni (2011 – 6,410 awr), yn cynrychioli cyfartaledd o 127.5 awr yr wythnos (2011 – 123.3 awr). Mae dadansoddiad o'r oriau hyn rhwng rhaglenni Cymraeg a'u costau perthnasol a rhaglenni Saesneg fel a ganlyn:

	2012 Oriau	Cost yr awr £	2011 Oriau	Cost yr awr £
Cymraeg				
Rhaglenni a gomisiynwyd				
Cynrychiadau annibynnol	1,990	31,214	1,830	39,038
BBC	13	87,630	13	91,200
	2,003	31,580	1,843	39,406
Rhaglenni a brynwyd	342	2,315	482	1,890
Ailddarlediadau				
Cynrychiadau annibynnol	3,376	538	3,152	471
BBC	341	5,972	293	7,170
	6,062	11,201	5,770	13,366
BBC - Oriau Statudol	567	-	640	-
	6,629		6,410	
Cyfartaledd yr wythnos	127.5		123.3	

Rhaglenni a ddarledwyd yn ôl categori

	2012 Oriau	Cost yr awr £	2011 Oriau	Cost yr awr £
Rhaglenni a gomisiynwyd				
Drama	98	150,040	70	188,600
Ffeithiol Cyffredinol	649	24,865	659	30,715
Materion Cyfoes	69	30,739	76	32,900
Cerdd Ysgafn/Adloniant	139	54,337	124	71,490
Plant	598	11,938	413	21,940
Cerddoriaeth a Chelfyddydau	148	31,473	152	33,890
Chwaraeon	279	35,339	323	38,320
Crefydd	23	47,103	26	47,207
Cyfanswm	2,003	31,580	1,843	39,406

	2012 Oriau	2011 Oriau
BBC		
Drama	96	97
Newyddion	199	187
Materion Cyfoes a Ffeithiol	49	72
Adloniant Ysgafn	-	2
Pobl Ifanc a Phlant	14	39
Cerddoriaeth a Chelfyddydau	103	118
Addysg	-	-
Chwaraeon	106	125
Crefydd	-	-
	567	640

Derbyniodd S4C yr oriau statudol a ddarparwyd gan y BBC, a oedd yn cynnwys rhai ailddarlediadau, dan Adran 58 (1) Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd gan Adran 29 Deddf Darlledu 1996) a thalwyd amdanynt gan y BBC o incwm y drwydded. Mae S4C hefyd wedi gwneud taliadau gwerth £3.1m i'r BBC am ddarparu ailddarlediad omnibws wythnosol a 30 o benodau haf o Pobol y Cwm nad yw'n cael eu darparu fel rhan o'r oriau statudol.

Darlledodd S4C 1,278 awr (2011 – 1,278 awr) o raglenni Cymraeg yn yr oriau brig rhwng 6.30 p.m. a 10.00 p.m. sydd yn rhoi cyfartaledd yr wythnos o 24.6 awr (2011 – 24.6 awr).

Hours transmitted and average cost per hour

The total hours of programmes transmitted by S4C during the year amounted to 6,629 (2011 – 6,410), representing an average per week of 127.5 hours (2011 – 123.3 hours). An analysis of these hours between Welsh language programmes and their related costs and English language programmes is as follows:

	2012 Hours	Cost per hour £	2011 Hours	Cost per hour £
Welsh				
Commissioned programmes				
Independent production	1,990	31,214	1,830	39,038
BBC	13	87,630	13	91,200
	2,003	31,580	1,843	39,406
Acquired programmes	342	2,315	482	1,890
Repeats				
Independent production	3,376	538	3,152	471
BBC	341	5,972	293	7,170
	6,062	11,201	5,770	13,366
BBC - Statutory hours	567	-	640	-
	6,629		6,410	
Average per week	127.5		123.3	

Transmitted programmes by category

	2012 Hours	Cost per hour £	2011 Hours	Cost per hour £
Commissioned programmes				
Drama	98	150,040	70	188,600
General Factual	649	24,865	659	30,715
Current Affairs	69	30,739	76	32,900
Light Music / Entertainment	139	54,337	124	71,490
Children	598	11,938	413	21,940
Music and Arts	148	31,473	152	33,890
Sport	279	35,339	323	38,320
Religion	23	47,103	26	47,207
Total	2,003	31,580	1,843	39,406

	2012 Hours	2011 Hours
BBC		
Drama	96	97
News	199	187
Current Affairs and Factual	49	72
Light Entertainment	-	2
Youth and Children	14	39
Music and Arts	103	118
Education	-	-
Sport	106	125
Religion	-	-
	567	640

The statutory hours supplied by the BBC, which included an element of repeat programmes, were provided to S4C under Section 58 (1) of the Broadcasting Act 1990 (as amended by Section 29 of the Broadcasting Act 1996) and were funded out of the BBC's licence revenue. S4C also made payments totalling £3.1m to the BBC for the provision of the weekly omnibus repeat and 30 summer episodes of Pobol y Cwm not provided as part of the statutory hours.

1,278 hours (2011 - 1,278 hours) of Welsh language programmes were transmitted in the peak hours between 6.30pm and 10.00pm with a weekly average of 24.6 hours (2011 – 24.6 hours).

Adroddiad Llywodraethiant

Mae fframwaith cyfansoddiadol Awdurdod S4C wedi'i nodi mewn statud ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol ar ei weithgareddau i'r Senedd bob blwyddyn.

Cydymffurfiaeth

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i ddefnyddio'r egwyddorion uchaf o ran llywodraethiant corfforaethol sy'n gymesur â'i faint. Er nad yw'r Awdurdod yn gwmni rhestredig, mae wedi dewis cydymffurfio â darpariaethau Adran 1 Côd Llywodraethiant Corfforaethol y DU 2010 hyd y bônt yn gymwys i'r Awdurdod.

Cymhwyso egwyddorion

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddorion llywodraethiant da a gynhwysir yng Nghôd Llywodraethiant Corfforaethol y DU. Mae'r Awdurdod yn darparu arweiniad i weithgareddau S4C o fewn fframwaith o reolaethau gofalus ac effeithiol sy'n caniatáu asesu a rheoli risg. Mae mwy o wybodaeth am brosesau asesu risg a rheoli risg yr Awdurdod i'w chael isod.

Mae'r Awdurdod yn gosod nodau strategol S4C, yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol a dynol angenrheidiol yn eu lle i S4C gyflawni ei hamcanion ac yn adolygu perfformiad y rheolwyr.

Yr Awdurdod

Fel awdurdod darlledu annibynnol, mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb llawn dros sicrhau bod swyddogaethau statudol S4C, mewn amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus a masnachol, yn cael eu cyflawni'n unol â pholisïau'r Awdurdod a gofynnol Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf Cyfathrebiadau 2003 a hefyd y Cytundeb Gweithredu.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys y Cadeirydd a hyd at wyth aelod, a phenodir pob un gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cymru ac Ymddiriedolaeth y BBC. Mae ganddynt brofiad a gwybodaeth hlaeth ac maent yn annibynnol o'r Tim Rheoli, ac o unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd ag arfer eu barn annibynnol. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau na all y broses o wneud penderfyniadau gan yr aelodau gael ei dominyddu gan unigolyn neu grŵp bychan.

Cynhwysir manylion bywgraffiadol ynghyd â chofnod o bresenoldeb aelodau'r Awdurdod yn yr Adroddiad Blynyddol. Caiff aelodau'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn eu rhestru yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid oedd i'r un o'r aelodau fudd o gontractau gyda S4C. Caiff gwybodaeth sy'n ofynnol dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon ei roi mewn perthynas â chydabyddiaeth yr aelodau yn Nodyn 4 y Datganiad Ariannol.

Mae cofrestr sy'n datgan diddordebau'r Aelodau ar gael ar wefan S4C, s4c.co.uk. Mae copïau ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd S4C yng Nghaerdydd a Chaernarfon.

Fel rhan o'u rôl fel aelodau'r Awdurdod, mae aelodau'n herio'r weithrediaeth mewn modd adeiladol ac yn rhoi cymorth ar y cyd i ddatblygu strategaeth yr Awdurdod ar gyfer gwasanaethau S4C. Mae aelodau'r Awdurdod yn craffu perfformiad y rheolwyr mewn perthynas â'r nodau ac amcanion a gytunwyd ac yn monitro adrodd ar berfformiad. Maent yn bodloni eu hunain am gywirdeb gwybodaeth ariannol a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg yn gadarn ac yn amddiffynadwy.

Yn ystod 2012 fe gynhaliodd yr Awdurdod 11 cyfarfod busnes misol. Yn ogystal ag ystyried materion sy'n gysylltiedig â pherfformiad gwasanaeth S4C a gweithrediad busnes S4C, fe ddeliodd gyda nifer o faterion strategol a fydd yn effeithio ar berfformiad yr Awdurdod yn y dyfodol gan gynnwys materion cyllidebol mewn perthynas â gweithredu'r gostyngiad parhaus mewn cymorth grant a ddiwyddodd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â newidiadau i amserlen a strategaeth a chyllideb cynnwys S4C. Rhoddodd yr Awdurdod ystyriaeth fanwl hefyd i'r trafodaethau parhaus rhwng S4C, Ymddiriedolaeth y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac atebolrwydd S4C yn y dyfodol a gyrhaeddodd benllanw ym mis Awst pan gyhoeddwyd Cytundeb Gweithredu drafft rhwng yr Awdurdod ac Ymddiriedolaeth y BBC y bu i ni gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno.

Fel arfer bydd y Prif Weithredwr, Ysgrifennydd yr Awdurdod, a'r Tim Rheoli'n bresennol ym mhob un o gyfarfodydd yr Awdurdod. Mae'r Tim Rheoli'n darparu gwybodaeth briodol ac amserol ar gyfer aelodau'r Awdurdod ac mae rhyddid i'r aelodau ofyn am unrhyw wybodaeth bellach y credant sy'n angenrheidiol. Gall pob aelod ofyn am yngor gan Ysgrifennydd yr Awdurdod a gweithwyr proffesiynol annibynnol ar draul S4C. Darperir hyfforddiant a rhaglen sefydlu i aelodau newydd yn ôl yr angen.

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu'r pwyllgorau canlynol i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau:

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth
- Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Pwyllgor Cynnwys

Cynrychiolir yr Awdurdod hefyd ar fwrdd Grŵp Masnachol S4C gan ddau aelod o'r Awdurdod a benodwyd fel cyfarwyddwyr anweithredol i'r is-gwmnïau masnachol sy'n eiddo'n gyfan gwbl i S4C.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i gynnal asesiad rheolaidd a thrylwyr o'i berfformiad a pherfformiad ei bwyllgorau ac aelodau.

Yn ystod y flwyddyn fe barhaodd y broses o weithredu'r argymhellion a wnaed gan Syr Jon Shortridge KCB yn ei adolygiad o strwythurau Llywodraethiant Corfforaethol S4C a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011, gyda'r cynnydd yn cael ei fonitro a'i adolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Mae argymhellion Shortridge wedi cael eu defnyddio fel y sail i werthusiad parhaus o berfformiad yr Awdurdod ei hun ac mae'r broses o adolygu effeithiolrwydd perfformiad yr Awdurdod yn parhau i gael ei ddatblygu. Yn ystod y flwyddyn fe arweiniodd Cadeirydd yr Awdurdod adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd yr Awdurdod ei hun, ei bwyllgorau ac adolygiad o berfformiad holl aelodau'r Awdurdod. Cafodd adolygiad o berfformiad y Cadeirydd ei gynnal ar y cyd gan gadeiryddion y Pwyllgorau Personél ac Archwilio a Rheoli Risg. Rhoddodd yr adolygiadau hyn sicrwydd i'r Awdurdod bod S4C yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau statudol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Y Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli

Mae perfformiad y Prif Weithredwr yn cael ei asesu'n flynyddol gan yr Awdurdod. Caiff y broses hon ei harwain gan y Cadeirydd. Dechreuodd y Prif Weithredwr yn ei swydd ym mis Ionawr 2012 a chynhaliwyd asesiad blynyddol o berfformiad ym mis Ionawr 2013.

Mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu system o asesu perfformiad ac amcanion personol a

chorfforaethol ar gyfer aelodau'r Tim Rheoli. Caiff yr amcanion hyn eu cytuno rhwng y Prif Weithredwr ag aelodau unigol y Tim Rheoli ar ddechrau'r flwyddyn a bydd eu perfformiad mewn perthynas â hwy yn cael ei asesu gan y Prif Weithredwr yn ystod ac yn dilyn diwedd y flwyddyn.

Caiff aelodau o'r Tim Rheoli a benodwyd cyn Ionawr 2012 eu cyfflogi ar gytundebau parhaol. Mae penodiadau i'r Tim Rheoli a'r Tim Comisiynu ers Ionawr 2012 wedi eu gwneud ar sail cytundebau am gyfnod penodol.

Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli
